

CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)

Cofnodion y cyfarfod o'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Tŷ Russell, Ffordd Churton, Y Rhyl ar ddydd Mercher 6ed Gorffennaf 2005 am 10.00a.m.

YN BRESENNOL

Yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych

Y Cyngorwyr M.M. Jones (Cadeirydd), R.E. Barton (sylwebydd), G.A. Jones a G.J. Pickering

Yn cynrychioli Cydbwyllgor Negodi Athrawon Sir Ddinbych

I. Barros-Curtis ac M.B. Lloyd

Yn cynrychioli Enwadau Crefyddol

T. Bryer, H. Ellis, Uwch-gapten D. Evans, S. Harris, Parch. B.H. Jones a J. Kirkham

HEFYD YN BRESENNOL

Arolygydd/Ymgynghorydd AG (G. Craigen), Uwch Swyddog Addysg - Cynradd (G.L. Jones) a'r Swyddog Gweinyddol (K.E. Jones)

DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH

M. Bradshaw, J. Buckley Jones, M. Colbert, M. Evans, P. Speirs, Parch Athro L.J. Frances, Tania Ap Sion (dirprwy ar ran y Parch. Athro L.J. Francis) a'r Cyngorwyr G.C. Evans, K.N. Hawkins, C.L. Hughes a D. Owens

Roedd ymddiheuriadau am absenoldeb hefyd wedi eu derbyn gan Huw Griffiths, Cyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes a Tony Jones, Swyddog Addysg

MYFYRDOD TAWEL

Cychwynnodd y cyfarfod gydag ychydig funudau o fyfyrddod tawel.

CROESO

Cymerodd y Cadeirydd y cyfle i groesawu aelodau a swyddogion i'r cyfarfod ac estynnwyd croeso cynnes hefyd i Mr. Wyn Hobson a oedd yn darparu'r cyfleusterau cyfieithu ar y pryd. Cyfeiriodd hefyd at y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes a oedd newydd ei benodi, Mr. Huw Griffiths, ac edrychodd ymlaen at ei weld yng nghyfarfodydd CYSAG yn y dyfodol. Cyfeiriodd yn fyr at faterion aelodaeth a dywedodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG bod Mrs. Julia Buckley Jones wedi disodli Mrs. Jean Hannam fel cynrychiolydd

Cymdeithas Genedlaethol Penaethiaid a chadarnhaodd bod cynrychiolwyr yn y broses o gael eu ceisio ar gyfer Pennaeth Iau a Phennaeth Uwchradd.

1. COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2005 (a ddisbarthwyd ymlaen llaw) fel y cymeradwywyd gan y Cyngor Sir ar 12fed Ebrill, 2005.

Cywirdeb -

Tud. 3 - Cofnod. 593 Cofnodion: Materion yn Codi – Cyfeiriodd y Cadeirydd at y cyfeiriad at Mr. B.H. Jones a chadarnhau mai'r teitl priodol oedd B.H. Jones.

Tudalennau 6 & 7 – Cofnod. 597 Cymdeithas CYSAG Cymru – Dywedodd y Cadeirydd bod y gair 'SACRE' wedi ei gynnwys yn fersiwn Cymraeg y cofnodion yn hytrach na 'CYSAG'. Teimlai ei bod yn bwysig bod y cyfieithiad cywir yn cael ei ddefnyddio ac atgoffodd yr aelodau bod y mater hwn wedi ei godi o'r blaen.

Materion yn codi-

Gan nad oedd unrhyw faterion yn codi, fe:-

BENDERFYNWYD derbyn y cofnodion yn amodol ar y sylwadau a wnaed uchod.

2. ADDYSG GREFYDDOL YN YSGOL UWCHRADD DINBYCH - CYFLWYNIAD

Cyflwynodd a chroesawodd y Cadeirydd Mr. Karl Lawson, Pennaeth AG yn Ysgol Uwchradd Dinbych, i'r cyfarfod i roddi cyflwyniad ar ddarpariaeth a chyflwyniad Addysg Grefyddol yn yr ysgol.

Gan gyfeirio at bapur (a ddisbarthwyd yn y cyfarfod), gwnaeth Mr. Lawson ei gyflwyniad a rhoi gorolwg o'r rhaglen astudiaethau a ddysgwyd i ddisgyblion yn Ysgol Uwchradd Dinbych o flwyddyn 7 i flwyddyn 13 ynghyd manylion materion cysylltiedig gan gynnwys trefniadau staff; lleoliad adran; llywodraethwr cyswllt; cysylltiadau ysgolion cynradd, a digwyddiadau penodol eraill. Rhoddwyd pwyslais penodol ar y meysydd canlynol:-

Lefelau Cyfnod Allweddol 3 (CA) - Gwelodd eleni gyflwyniad y lefelau ymgynghorol ar gyfer AG CA3 yn yr ysgol, a adroddwyd arnynt ym mhob grŵp blwyddyn ynghyd ag ar ddiwedd y Cyfnod Allweddol. Rhoddwyd lefel darged i bob grŵp blwyddyn ar ddechrau'r flwyddyn academaidd a dyfarnwyd lefelau ar ôl asesiadau priodol, yn arwain at ddyfarnu lefel lawn ar ddiwedd Blwyddyn 9. Roedd yr effaith o gael lefelau yn eu gwaith AG wedi helpu codi proffil academaidd y pwnc ym meddyliau disgyblion a'u rhieni.

TGAU a Chwrs Byr - Mae'r adran AG wedi cynnal lle cadarn o fewn cwricwlwm yr ysgol gyda niferoedd yn cymryd TGAU wedi bod yn ffafriol o gymharu gyda Daeryddiaeth ac yn well na Hanes yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Roedd y canlyniadau TGAU yn deg ac yn rhagorol yn y Cwrs Byr. Dilynodd y cwrs TGAU a'r

Cwrs Byr Bapurau Fanyleb B Opsiwn A (a B ar gyfer TGAU). Roedd y newid yn ôl i Fanyleb A, Cristnogaeth ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf yn rhannol oherwydd peth gorgyffwrdd a grëwyd gan fyfyrwyr yn dilyn y rhaglen TGAU ac AG statudol.

Lefel A - Niferoedd ar gyfer Lefel A wedi codi dros y 3 blynedd ddiwethaf. Niferoedd AS (Blwyddyn 12) yn 8 a 7 ym Mlwyddyn 13 (A2). Y nifer posibl ar gyfer Astudiaethau Crefyddol ym Medi 2005 ar gyfer grŵp Blwyddyn 12 oedd 36 hynod. Er yn falch gyda'r brwdfrydedd a ddangoswyd ar gyfer y pwnc, bu pryderon ynglŷn â'r niferoedd o ran dysgu ac adnoddau. Serch hynny, roedd yr ysgol yn benderfynol o ateb yr her honno.

Cysylltiadau Ysgolion Cynradd - mae cysylltiadau gydag Ysgol Gwaenynog ac Ysgol Cefn Meiriadog wedi ei meithrin a gobeithiwyd y gellid sefydlu cysylltiad hefyd gydag Ysgol Heulfre (cysylltiad adran iau â Gwaenynog); roedd projectau llwyddiannus yn cynnwys project Divali, i'w ail-adrodd y flwyddyn nesaf ynghyd â thrafodaethau ar gynlluniau gwaith a sefydlu project trosiannol Blwyddyn 6, lle byddai disgyblion Blwyddyn 6 yn ymweld ag adran AG Ysgol Uwchradd Dinbych am ddiwrnod a gweithio ar broject penodol, a thrwy hynny'n cryfhau'r cysylltiad CA2 a CA3.

Digwyddiadau eraill 2004/05 – roedd y digwyddiadau'n cynnwys Noson Agored gan gynnwys cyflwyniad aml-gyfrwng ar y ddadl ddibenyddiol; disgyblion TGAU Blwyddyn 11 yn cynhyrchu ffilm fer ar brif nodweddion Man Addoliad Cristnogol yn ystod ymweliad ag eglwys y plwyf; Eisteddfod Ysgol a gynhwysodd dair cystadleuaeth ar gyfer AG oddi ar y llwyfan, a ffug-seremoni priodas yn Eglwys Anglicanaidd y Santes Fair, Dinbych.

Mwynhaodd yr aelodau'r cyflwyniad yn fawr a chymryd y cyfle i holi Mr. Lawson ar amrywiol agweddau darpariaeth AG yn Ysgol Uwchradd Dinbych, gan gyfeirio'n benodol at lwyddiant niferoedd disgyblion yn cymryd Ag lefel A a sut byddai'r ysgol yn goresgyn y problemau dysgu ac adnoddau wrth ddysgu nifer mor fawr o ddisgyblion, a rhyngweithio disgyblion gyda'r byd go iawn yn wyneb digwyddiadau megis trychineb y tsunami a'r ymgyrch Gwneud Tlodi'r Hanes.

Llongyfarchodd Mrs. M.B. Lloyd Mr. Lawson ar ei gyflwyniad a'r gwaith ysbrydoledig a wneid yn yr ysgol. Dywedodd ei bod yn ymwybodol o gyn-ddisgybl yn yr Ysgol a oedd wedi mynd yn Weinidog. Diolchodd y Cadeirydd i Mr. Lawson am ei gyflwyniad diddorol, llawn gwybodaeth, a oedd wedi rhoi cipolwg ar y gwaith rhagorol a wnaed yn Ysgol Uwchradd Dinbych o ran cyflwyno Addysg Grefyddol. Gofynnodd i Mr. Lawson gyfleu llongyfarchiadau'r Cyngor Ymgynghorol i aelodau staff eraill yn yr ysgol ar eu gwaith gwerthfawr.

PENDERFYNWYD derbyn a chydabod y cyflwyniad gan Mr. Karl Lawson ar AG yn Ysgol Uwchradd Dinbych.

3. DADANSODDIAD O ADRODDIADAU ARCHWILIO YSGOLION

Cyflwynodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG adroddiad (a ddsbarthwyd ymlaen llaw) ar y sylwadau cadarnhaol a negyddol mewn perthynas ag Addysg Grefyddol a Datblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol (YMCD) a archwiliwyd mewn dwy ysgol yn Hydref 2004 ynghyd â hanes cefndir byr pob ysgol. Cafwyd

archwiliad yn Ysgol Emmanuel, Y Rhyl ac Ysgol Bryn Clwyd, Llandyrnog. Hysbyswyd yr aelodau nad oedd Addysg Grefyddol wedi ei harchwilio yn Ysgol Bryn Clwyd gan ei fod yn un o'r chwe phwnc penodol i'w cynnwys yn yr adroddiad dan y trefniadau archwilio newydd.

Rhoddodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG grynodedb byr o ddarganfyddiadau mewn perthynas â phob ysgol, gan esbonio ac egluro materion penodol mewn ymateb i gwestiynau'r aelodau arnynt. Er gwaethaf y ffaith mai dim ond dwy ysgol a gafodd eu harchwilio, roedd yn falch o adrodd ar y lefel uchel o ganmoliaeth gyda 32 sylw positif ar gyfer YMCD. Er bod un mater allweddol wedi ei nodi mewn un ysgol i godi safonau mewn pynciau lle gwelwyd diffygion, roedd hyn yn beth generig ym mhob pwnc ac nid yn benodol i AG. Gwnaed sylw negyddol mewn un ysgol nad oedd cynllunio ar gyfer datblygu'r Cwricwlwm Cymreig wedi ei ddatblygu'n ddigonol. Fodd bynnag, teimlai'r arolygydd/Ymgynghorydd AG bod methiant i adnabod y cynllunio ar gyfer y Cwricwlwm Cymreig, yn hytrach na diffyg cynllunio. Dim ond yn Ysgol Emmanuel a archwiliwyd Addysg Grefyddol ac roedd 3 sylw positif o gymharu gyda dim ond 3 sylw negyddol, ac roedd yr ysgol wedi bod yn trin y cyntaf cyn yr archwiliad a byddai'r materion eraill yn ffurfio rhan o'r cynllun gweithredu.

Roedd yr aelodau'n falch o weld y canfyddiadau positif yn yr adroddiad ac yn unol â'r drefn arferol, gofynnodd yr aelodau bod yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG yn ysgrifennu at yr ysgolion a archwiliwyd yn eu llongyfarch ar eu hadroddiadau a chynnig iddynt unrhyw wasanaethau i ddelio gydag unrhyw ddiffygion.

Mynegodd Mrs. M.B. Lloyd ei siom mewn perthynas â'r newid yn y broses archwilio a oedd yn golygu na fyddai AG yn cael ei archwilio ym mhob ysgol a dywedodd wrth yr aelodau ei bod yn bwriadu codi'r mater yn uniongyrchol gydag ESTYN. Cyfeiriodd at y trefniadau monitro ac arolygu newydd a weithredwyd yn y sir a dywedodd bod cyrff eraill, gan gynnwys Cyngor AG Cenedlaethol, yn dangos diddordeb mawr yn y system newydd. Dywedodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG bod gan ESTYN, wrth ddewis pynciau i'w harchwilio, ofyniad i sicrhau triniaeth ddigonol o bob pwnc, ynghyd ag edrych ar y tri phwnc cryfaf a'r tri gwanaf. Hysbysodd yr Aelodau bod ACCAC yn hyrwyddo system fonitro newydd yr awdurdod fel arfer dda ac ymateb effeithiol i'r newid ym mhroses archwilio ESTYN.

PENDERFYNWYD:-

- (a) *derbyn a chydabod yr adroddiad, a*
- (b) *bod yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG yn ysgrifennu at yr ysgolion a archwiliwyd yn eu llongyfarch ar eu hadroddiadau a chynnig iddynt unrhyw wasanaethau o ran delio gydag unrhyw ddiffygion.*

4. ADRODDIAD MONITRO AC AROLWG CEFNOGOL – CONSORTIWM YSGOLION UWCHRADD BRYNHYFRYD

Cyflwynodd yr arolygydd/Ymgynghorydd AG adroddiad (a ddisbarthwyd ymlaen llaw) ar ddarparu Addysg Grefyddol yng Nghonsortium Ysgolion Rhuthun a oedd yn cynnwys Ysgol Brynhyfryd, Rhuthun a'r ysgolion bwydo canlynol: Ysgol Bro Fammau, Llanarmon yn Iâl; Ysgol Clocaenog; Ysgol Gellifor; Ysgol Llanbedr; Ysgol

Llanfair D.C.; Ysgol Penbaras; Ysgol Stryd Rhos; Ysgol Cyffylliog, ac Ysgol Borthyn. Dosbarthwyd adroddiad ar Ysgol Borthyn yn y cyfarfod.

Dywedodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG na fu modd cynnwys dwy o'r ysgolion bwydo i Ysgol Brynhyfryd yn yr adroddiad hwn a dywedodd y byddai'r ysgolion hynny'n cael eu harchwilio yn nes ymlaen a'u cynnwys mewn adroddiad ar gonsortiw cyffiniol. Gofynnodd Mrs. M.B. Lloyd ei bod yn cael ei gwneud yn eglur mewn adroddiadau yn y dyfodol os oedd ysgolion o gonsortia cyffiniol wedi eu cynnwys. Atgoffodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG yr aelodau o'r trefniadau monitro newydd ar gyfer Addysg Grefyddol ar ôl y newidiadau diweddar i broses archwilio ESTYN. Ar ôl ymweliad gan yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG â'r ysgolion yn ystod tymor y gwanwyn, roedd adroddiad ar yr ymweliad a materion a chanlyniadau wedi eu cytuno gyda'r ysgol. Roedd yr adroddiad yn nodi nodweddion da, diffygion ac argymhellion ar gyfer pob ysgol, ynghyd â chrynodeb cyffredinol o'r consortiw cyfan. Hysbyswyd yr aelodau bod llawer i'w ddatlu o ran nodweddion da'r ysgolion yn y consortiw, yn benodol:-

- Ystod tasgau ac arddull dysgu ac addysgu
- Darpariaeth ar gyfer ac arddull cyd-addoliad
- Cynllun gwaith manwl/defnyddiol/gwerthfawr
- Lle sicr AG yn y cwricwlwm
- Faint o waith a gynhyrchwyd mewn gwersi AG
- Cysylltiadau positif gyda'r gymuned ffydd
- Trefniadau asesu/monitro a fodolai

Wrth ystyried y sylwadau negyddol, hysbyswyd yr aelodau bod ysgolion bellach wedi derbyn cyfarwyddyd gan CYSAG a deunyddiau ACCAC a fyddai'n helpu delio gyda sylwadau ar feysydd i'w datblygu a helpu cynnydd o ran yr argymhellion. Nid oedd modd bob amser gwneud na chadarnhau'r beirniadaethau ar safonau a wnaed gan yr ysgol, ond o ben i ben roedd yn ddarlun da. Teimlai Mrs. M.B. Lloyd ei bod yn bwysig annog yr ysgolion yn eu gwaith da a chynigiodd, yn yr un modd ag archwiliadau ESTYN, bod llythyr yn cael ei anfon at yr ysgolion yn eu llongyfarch ar eu hagweddau positif a chynnig unrhyw wasanaethau o ran delio gydag unrhyw ddiffygion.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, ymatebodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG i gwestiynau'r aelodau ar y broses archwilio a'r trefniadau gweinyddol yn deillio ohoni, a goblygiadau'r system bresennol o dynnu disgyblion allan am flwyddyn gyfan o ddarpariaeth AG ar gyfer darpariaeth AAA yn Ysgol Brynhyfryd. Dywedodd hefyd, er mwyn iddo fedru cyflawni ei gyfrifoldebau eraill, y bu'n rhaid lleihau'r nifer o gonsortia ysgol a archwiliwyd yn ystod y flwyddyn o dri i ddau. Cyfeiriodd y Cadeirydd at waith caled ac ymrwymiad yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG a chydabu'r aelodau y pwysau gwaith ychwanegol yn deillio o ymweliadau ag ysgolion. Ategodd y Swyddog Addysg Gynradd y teimladau hynny ar ran y cyngor a thalu teyrnged i waith arloesol yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG yn hyn o beth.

PENDERFYNWYD:-

(a) *derbyn a chydabod yr adroddiad, a*

- (b) *bod yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG yn ysgrifennu at yr ysgolion a archwiliwyd yn eu llongyfarch ar y nodweddion positif yn eu hadroddiadau a chynnig iddynt unrhyw wasanaethau o ran delio ag unrhyw ddiffygion.*

5. CANLYNIADAU ARHOLIADAU 2004

Cyflwynodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG dablau (a ddsbarthwyd yn y cyfarfod) yn manylu canlyniadau arholiadau Astudiaethau Crefyddol ar gyfer 2004 yn ysgolion uwchradd Sir Ddinbych er ystyriaeth yr aelodau, ac ymddiheurodd bod y wybodaeth wedi cyrraedd yn hwyr - roedd hyn oherwydd anawsterau cyflwyno'r data mewn fformat priodol. Roedd y tablau'n rhoi dadansoddiad o ganlyniadau TGAU mewn Astudiaethau Crefyddol; Cwrs Byr Astudiaethau Crefyddol; Astudiaethau Crefyddol Lefel Uwch TAF, a'r Dystysgrif Llwyddiant Addysgol mewn Astudaiethau Crefyddol.

Arweiniodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG yr aelodau trwy'r canlyniadau'n fanwl ac adrodd yn llafar ar gymariaethau rhwng canlyniadau 2004 a 2003. Cyfeiriodd yn benodol at y pwyntiau canlynol:-

- Canlyniadau TGAU Pawb - Astudiaethau Crefyddol 2004 - yn gyffredinol roedd gostyngiad bychan mewn perfformiad o 1.7% ond roedd y canlyniadau 1.4% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer rhai yn ennill graddau A* - C;
- Canlyniadau TGAU Bechgyn - Astudaiethau Crefyddol - roedd cynnydd yn y nifer o ymgeiswyr ar y flwyddyn flaenorol gyda pherfformiad yn well o 6.6% ar raddau A* - C a oedd 4.2% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o gymharu gyda pherfformiad y llynedd a oedd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol;
- Canlyniadau TGAU Merched – Astudiaethau Crefyddol – roedd gostyngiad o 13 o ben i ben yn y nifer o ymgeiswyr, o gymharu gyda'r flwyddyn flaenorol gyda gostyngiad bach o 3.2% i rai'n cael A* - C a oedd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 1.2%;
- Addysg Grefyddol Pawb (Cwrs Byr) – roedd modd nawr dilyn manyleb A a B fel cwrs llawn neu gwrs byr; roedd y canlyniadau ychydig yn siomedig gyda gostyngiad 4.4% mewn perfformiad i rai'n cael gradd A* - C a oedd 10.4% islaw'r cyfartaledd cenedlaethol; gostyngiad nifer yr ymgeiswyr hefyd gan 25 o ddisgyblion, a oedd yn groes i'r duedd genedlaethol;
- Lefel Uwch TAG Pawb – Astudaiethau Crefyddol – roedd cynnydd o 4 ymgeisydd gyda 77.8% yn cael A* - C a oedd 8.9% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ac yn well na'r flwyddyn flaenorol;
- Tystysgrif Llwyddiant Addysgol – roedd cynnydd o 50 ymgeisydd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol gyda chyfradd lwyddo o 86.4% a oedd 7.5% islaw'r cyfartaledd cenedlaethol.

I gloi, dywedodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG bod y canlyniadau arholiad yn gyffredinol, ac eithrio'r Cwrs Byr Astudaiethau Crefyddol, yn dda iawn a bod gwaith yn parhau i annog gwelliannau parhaus yn yr ysgolion.

Wrth ystyried y canlyniadau arholiad, codwyd pryderon penodol nad oedd Ysgol that Glan Clwyd ac Ysgol Uwchradd Y Rhyl wedi cyflwyno ymgeiswyr ar gyfer arholiadau TGAU a dywedodd yr Arolygydd/ Ymgynghorydd AG mai dim ond 11 ymgeisydd a oedd gan Ysgol Glan Clwyd y llynedd ac nad oedd unrhyw ddisgyblion ar gyfer 2004, er y byddai grŵp o ymgeiswyr eleni. Roedd Ysgol Uwchradd Y Rhyl wedi gwella'r ddarpariaeth ar gyfer AG ac wedi cyflwyno disgyblion ar gyfer y Cwrs Byr Astudaiethau Crefyddol neu'r Dystysgrif Llwyddiant Addysgol yn hytrach na TGAU.

Cyfeiriodd y Cynghorydd R.E. Barton at lwyddiant Ysgol Uwchradd Prestatyn yn cael canlyniadau rhagorol er gwaethaf carfan ddisgyblion mor fawr a gofynnodd bod ysgolion yn dangos canlyniadau mor dda yn cael eu llongyfarch.

Roedd yr aelodau'n falch bod canlyniadau arholiad, yn gyffredinol, yn adlewyrchu'n dda ar y sir a llongyfarchwyd yr ysgolion ar eu llwyddiannau.

PENDERFYNWYD derbyn a chydnabod canlyniadau arholiad ysgolion Sir Ddinbych ar gyfer 2004.

6. AROLWG O'R CWRICWLWM CENEDLAETHOL – I DDOD MEDI 2006

Adroddodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd Ag yn llafar ar arolwg o'r Cwricwlwm Cenedlaethol a gomisiynwyd gan ACCAC i'w weithredu o 2007 ymlaen. Roedd yn falch o adrodd bod ACCAC wedi cynnwys Addysg Grefyddol yn y broses o'r cychwyn a'i fod yn aelod o'r Panel Arolygu yn cynrychioli'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol. Dywedodd na fyddai'n briodol rhannu trafodaethau'r Panel Arolygu gyda'r aelodau ond ei fod yn falch o adrodd bod dau gyfarfod positif iawn wedi eu cynnal hyd yma a'i fod yn galonogol iawn ynglŷn â chyfeiriad y trafodaethau. Byddai bod yn aelod o'r Panel Arolygu yn galluogi i'r Arolygydd/Ymgynghorydd AG fwydo unrhyw newidiadau i system Sir Ddinbych yn gyflym iawn.

PENDERFYNWYD derbyn adroddiad llafar yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG ar arolwg ACCAC o'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

7. CYMDEITHAS CYSAG CYMRU – 25AIN CHWEFROR 2005

Cyflwynodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG gofnodion cyfarfod CCYSAGC a gynhaliwyd ar 25ain Chwefror 2005 ym Merthyr Tudful (a ddosbarthwyd ymlaen llaw).

Tynnodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd Ag sylw'r aelodau at fater yn codi o'r cofnodion ar arolygon CYSAG o'r Maes Llafur a Gytunwyd. Yn yr arolwg presennol gan ACCAC i adolygu'r canllawiau presennol, roedd y Pwyllgor Gwaith wedi cynnig bod CYSAG yn gohirio paratoi meysydd llafur newydd ac yn galw eu cynhadledd i ail-fabwysiadu meysydd llafur presennol tan 2008 neu pan fyddai canllawiau newydd ACCAC yn cael eu cyhoeddi, oherwydd y newidiadau a achoswyd gan y Cyfnod Sylfaen yn y Cwricwlwm Cenedlaethol. Ar ôl ystyried y cynnig hwnnw, fe:-

BENDERFYNWYD:-

- (a) *derbyn a chydabod cofnodion cyfarfod CCYSAGC a gynhaliwyd ar 25ain Chwefror 2005, a*
- (b) *galw cyfarfod o'r Gynhadledd Maes Llafur a Gytunwyd ar ôl cyfarfod nesaf y Cyngor Ymgynghorol i ystyried cynnig y Pwyllgor Gwaith i ohirio arolwg o'r Maes Llafur a Gytunwyd ac ail-fabwysiadu meysydd llafur presennol nes cyhoeddiad canllawiau newydd ACCAC.*

8. CYMDEITHAS CYSAG CYMRU – 22AIN MEHEFIN 2005

Adroddodd Mrs. M.B. Lloyd yn llafar ar y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 22ain Mehefin 2005 yng Nghanolfan Fusnes Conwy, Cyffordd Llandudno, a oedd yn groesawgar iawn, gyda chroeso cynnes i bawb. Dywedodd Mrs. Lloyd bod cyflwyniad PowerPoint wedi ei dderbyn gan y Parch. Athro L.J. Francis, Canolfan Genedlaethol ar AG ar ymchwil a ymgymerodd gyda disgyblion ysgolion uwchradd ledled Cymru a Lloegr. Rhoddodd rai esiamplau o'r cwestiynau a nodi bod yr ymatebion wedi eu rhannu yn gategorïau megis rhyw, oedran, bywyd cartref, ysgol a grwp ffydd, gyda chanlyniadau diddorol dros ben. Cyflwynodd Mrs. Lloyd gopi o'r sleidiau a phenderfynwyd bod copïau yn cael eu dosbarthu i holl aelodau CYSAG.

Adroddodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG hefyd bod Vicky Thomas a'r Parchedig Eldon Phillips wedi eu penodi i lenwi'r ddwy swydd wag ar y Pwyllgor Gwaith.

Diolchodd y Cadeirydd i Mrs. Lloyd am ei hadroddiad llafar a thalu teyrnged i'w gwaith caled ar CCYSAGC.

PENDERFYNWYD *derbyn yr adroddiad llafar.*

9. CYMDEITHAS CYSAG CYMRU – DIRPRWYAETH I JANE DAVIDSON, GWEINIDOG ADDYSG A DYSGU GYDOL OES

Adroddodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd yn llafar ar y ddirprwyaeth NAPfRE/CCYSAGC i Davidson AC, Gweinidog Addysg a Dysgu Gydol Oes ar 16eg Mai, 2005, manylion yr hyn a oedd wedi eu dosbarthu ymlaen llaw gyda'r rhaglen. Dosbarthwyd adroddiad pellach ar y cyfarfod yn y cyfarfod.

Dywedodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG bod y cyfarfod wedi bod yn un positif iawn ac y cafwyd trafodaeth broffesiynol iawn. Gofynnwyd i'r Gweinidog a fyddai'n ystyried bod yn Siaradwr Gwadd yn y symposiwm arfaethedig yn 2006 ac roedd wedi cadarnhau y byddai'n fodlon mynychu, cyn belled ag y byddai ar gael. Roedd ACCAC yn ddiweddar wedi cytuno gweinyddu'r gynhadledd. Hysbysodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG yr aelodau o'r pynciau a drafodwyd, a ganolbwyntiodd ar y canlynol:-

- AG mewn Hyfforddiant Athrawon Cychwynnol, gan gynnwys hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg

- AG yn Llwybrau Dysgu 14-19 a chyllido Addysg a Dysgu Cymru (ELWa) swydd Statudol AG 16+ a Chyrsiau Arholiad Astudiaethau Crefyddol
- Llwybrau Cwricwlwm Amgen a gofynion statudol a goblygiadau cwestiwn allweddol 3 Fframwaith Archwilio, a
- Datblygiad Proffesiynol Parhaus: addysg seiliedig ar bwnc ar gyfer rhagoriaeth yn y dosbarth.

Cymerodd yr aelodau'r cyfle i holi'r Arolygydd/Ymgynghorydd AG a Mrs. M.B. Lloyd ar y cyflwyniadau a wnaed i'r Gweinidog, yn enwedig y broblem o reoli gofynion statudol ar gyfer AG tra bo disgyblion yn dilyn cwricwlwm amgen oddi ar y safle. Hefyd, cododd Uwch-gapten D. Evans bryderon ynglyn â diffyg cyfleusterau ar gyfer Cyd-addoli Corfforaethol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Arolygydd/Ymgynghorydd AG am ei adroddiad a thalu teyrnged i'r gwaith caled a oedd yn cael ei wneud gan CCYSAGC a NAPfRE yn hyn o beth.

PENDERFYNWYD derbyn a chydabod yr adroddiad gan yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG.

Ar y pwynt hwn, cyfeiriodd Mrs. M.B. Lloyd at noson gyda'r cyn-wystl, Terry Waite, a oedd yn digwydd yn Theatr John Ambrose, Ysgol Brynhyfryd, Rhuthun ar 2il Medi 2005. Gofynnodd bod y wybodaeth hon yn cael ei dosbarthu i holl Ysgolion Uwchradd yn y sir, oherwydd teimlai y byddai'n fuddiol iawn i'r disgyblion hynny ar gyrsiau Lefel A pe baent yn mynychu.

Wrth gloi'r cyfarfod, nododd y Cadeirydd y problemau parcio i aelodau'n mynychu cyfarfod heddiw ac fe gytunwyd cadw'r mater o leoliadau cyfarfod dan arolygaeth. Diolchodd y Cadeirydd i'r Arolygydd/Ymgynghorydd AG, cyfieithydd y pwyllgor a Chlerc CYSAG am eu gwaith caled.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.50 a.m.

Adroddiad Blynyddol
Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol
Sir Ddinbych

2004 - 2005

**Adroddiad Blynyddol Cyngor Ymgynghorol
Sefydlog Addysg Grefyddol
Sir Ddinbych**

2004 - 2005

CYNNWYS

	Tudalen
Yr Adroddiad	1 - 15
Atodiadau:	
I Dyddiadau'r Cyfarfodydd	15
II Aelodaeth y CYSAG	16-17
III Rhestr y sefydliadau sy'n derbyn yr adroddiad	17
IV Tablau Canlyniadau Arholiadau	18 - 27

**Adroddiad Blynyddol Cyngor Ymgynghorol
Sefydlog Addysg Grefyddol
Sir Ddinbych**

2004 - 2005

(a) Y Maes Llafur Cytûn

Er mai 2007 yw'r dyddiad a bennwyd ar gyfer yr Adolygiad, bydd angen diwygio'r Maes Llafur Cytûn er mwyn rhoi ystyriaeth i'r newidiadau i Gyfnod Allweddol 1 a chyflwyniad y Cam Sylfaen, Fodd bynnag, cytunodd yr aelodau, ar ddiwedd y flwyddyn, i ohirio unrhyw adolygiad neu ddiwygiad nes bydd Adolygiad cyfredol ACCAC ar y Cwricwlwm Cenedlaethol wedi'i gwblhau.

(b) Safonau mewn Addysg Grefyddol

(i) Adroddiadau Monitro i CYSAG

Yn sgil y newidiadau a wnaed i Arolygiadau Estyn, a nifer bychan yr Adroddiadau Ysgolion sy'n debygol o arenwi pynciau, ac yn arbennig AG, gwnaeth y CYSAG gais am i'r AALI ystyried patrwm gwahanol er mwyn ei alluogi i gyflawni ei swyddogaeth monitro. Yn unol â hynny, arweiniodd trafodaethau gyda'r ysgolion a rhwng yr AALI a'r Athro/Arolygwr AG at gyflwyno Rhaglen Adolygu Monitro a Chefnogi [yn rhannol ar yr un patrwm â'r hyn a ddarperir ar gyfer pynciau eraill yn y cwricwlwm] a'r hyn y cyfeiriwyd ato yn Adroddiad Blynyddol llynedd. Mae'r rhaglen hon yn rhoi ffocws ar un Ysgol Uwchradd a'r ysgolion sy'n ei bwydo bob tymor, a bydd adroddiad ar y safonau a'r ddarpariaeth ar gyfer AG ac YMCD yn cael ei gyflwyno i'r CYSAG. Dros gyfnod o bum mlynedd, bydd yr holl ysgolion yn cael eu cynnwys mewn rhaglen o'r fath.

Cafodd tri Chonsortium o Ysgolion Uwchradd eu cynnwys eleni, a chafodd oddeutu 28 o ysgolion eu hadolygu trwy gyfrwng y broses dan sylw. Yn gyffredinol, mae'r

weithdrefn wedi bod yn gadarnhaol, ac mae'r ysgolion wedi croesawu'r ymweliadau a'r adroddiadau, ynghyd â'r cynghorion a'r gefnogaeth a ddeilliodd ohonynt. Yn ogystal, cafwyd cyfle i gofnodi a rhannu arfer dda.

Mae dadansoddi'r holl adroddiadau ar yr ysgolion hyn fel y cawsant eu cyflwyno i'r CYSAG yn darparu'r wybodaeth ganlynol am y safonau mewn Addysg Grefyddol (*):

Cyfnod Allweddol	Da gyda pheth Da Iawn	Da	Boddhaol	Yn gwella	Gostyngiad ers yr Arolygiad diwethaf	Ni ddaethpwyd i farn
Cyfnod Allweddol 1	4	11	3	1	1	2
Cyfnod Allweddol 2	4	9	1	1	1	3
Cyfnodau Allweddol 3 - 5	2	0	1	0	0	0

(*) Cafodd un o'r ysgolion uwchradd, hefyd, ei chynnwys yn y Broses Arolygiad, er nad oedd AG yn bwnc dynodedig yn yr arolygiad safonol.

Roedd yr aelodau'n falch iawn bod hyn yn arddangos lefel uchel o ysgolion oedd â safonau Da a Da Iawn mewn AG - oddeutu 71.4% o'r ysgolion/Cyfnodau Allweddol a adolygwyd. Wrth ystyried safonau o safbwynt eu bod yn foddhaol neu'n well, mae'r ffigur hwn yn codi i 92.9%, sy'n ganlyniad trawiadol.

Yn sgil yr ymweliad gan yr Arolygwr/Ymgynghorwr AG, mae adroddiad drafft, sy'n cynnwys Sylwadau [sy'n disgrifio'r gweithgareddau a ffocws yr ymweliad, gan gynnwys nodiadau am unrhyw wers yr arsylwyd arni neu unrhyw arfarniad o lyfrau/gwaith disgyblion], Safonau, Nodweddion Da, Agweddau i'w Datblygu ac Argymhellion, yn cael ei anfon i'r ysgol. Gan fod y CYSAG a'r AALL yn synio am yr Arolygiad fel rhan o broses hunan arfarnu'r ysgol ei hun, gofynnir i bob ysgol gytuno ar yr adroddiad - a gofynnodd rhai am fân newidiadau. Wedyn, cyflwynir gwybodaeth am y Nodweddion Da, yr Agweddau y mae Angen eu Datblygu a'r Argymhellion mewn perthynas â phob ysgol unigol yn y Consortiwm i'r CYSAG. Mae adroddiad cyffredinol ar yr ysgolion i gyd yn cwmpasu'r Safonau, yn dadansoddi'r

sylwadau ym mhob un o'r tair adran gan ddwyn sylw at themâu ac agweddau cyffredinol.

Yn dilyn cyfarfod y *CYSAG*, anfonir llythyr i bob ysgol yn eu llongyfarch ar y Nodweddion Da a arenwyd yr Adroddiad Adolygu, ynghyd â chopi o Adroddiad y Consortiwm Cyfan fel y cafodd hwnnw ei gyflwyno i'r *CYSAG* a chydag anogaeth i arfarnu eu hadroddiad yng nghyd-destun yr adroddiadau ar ysgolion eraill yn y consortiwm. Mae hyn wedi arwain ar rannu gwybodaeth ac arbenigrwydd yn effeithiol rhwng ysgolion.

Ar draws y tri chonsortiwm a gafodd sylw eleni, daeth y pwyntiau canlynol i'r amlwg o safbwynt y **Nodweddion Da**:

Cynlluniau gwaith da a oedd yn fuddiol ac yn werthfawr	17 ysgol
Ystod amrywiol o dasgau ac arddulliau addysgu a dysgu	16 ysgol
Darpariaeth ar gyfer cyd-addoliad a'r arddull a ddefnyddir	13 ysgol
Cysylltiadau cadarnhaol gyda chymuned cred	8 ysgol
Gweithdrefnau asesu/monitro wedi'u sefydlu ac yn effeithiol	7 ysgol
Statws/Diogelwch lle'r pwnc yng nghwricwlwm yr ysgol	7 ysgol
Ymrwymiad a phroffesiynoldeb yr athrawon	4 ysgol
Cynlluniau wedi'u sefydlu i fynd i'r afael â'r materion a ddaw i'r amlwg yn yr Arolygiadau	3 ysgol
Cynlluniau datblygu priodol wedi'u llunio ac yn cael eu gweithredu	3 ysgol
Cefnogaeth ac arweiniad da gan y Cydlynwyr Pynciol	2 ysgol
Swm y gwaith a gynhrychir mewn gwersi AG	2 ysgol
Cyfraniad AG i ddatblygiad y medrau allweddol yn cael ei nodi/ddarparu	2 ysgol
Ymdeimlad o achlysur arbennig yn ystod y cyfnodau cyd-addoliad	2 ysgol

Roedd yr holl nodweddion da eraill ar gyfer ysgolion unigol, fel a ganlyn:

- Gweithdrefnau hunan arfarnu da wedi'u sefydlu.
- Ethos yr ysgol yn gyffredinol dda.
- Rhestr o eirfa ar gyfer AG.
- Ystod dda o adnoddau ac arteffactau a defnydd rhagorol o ddysgu gweithredol a gweithgareddau cyfranogol.
- Syniadau ar gyfer TGCh mewn AG a strwythur ar eu cyfer wedi'i gynnwys yn y maes llafur.
- Adnoddau cyd-addoliad/adfyfyrio ar gyfer tiwtoriaid blwyddyn.

- Natur ddwyieithog y cyd-addoli.
- Natur ddwyieithog yr addysgu a chefnogaeth ieithyddol ychwanegol ar gyfer disgyblion CA1.
- Awyrgylch deuluol ar ddau safle'r ysgol.
- Cynlluniau ar y gweill i ail-ddrafftio'r cynllun a diweddarau'r dynesiadau.
- Cyfranogiad y disgyblion yn y cyd-addoli.
- Cyfranogiad y rhieni yn y cyd-addoli.
- Darpariaeth ac ystyriaeth i'r elfen amlddiwylliannol a chysylltiadau gyda gwledydd eraill.
- Cyfleoedd i ddisgyblion gofnodi eu barn eu hunain ac i ysgrifennu'n rhydd, yn arbennig yn CA1.
- Y cynllun gwaith a ail-ddrafftwyd a'r arfarniad yn weithredol ac yn gyfredol.
- Portffolio o'r gwaith a wneir mewn AG ar gael.
- Yr adnoddau gweledol rhagorol a luniwyd ar fannau addoliad yn yr ardal.
- Ffocws ar wahodd ymwelwyr i gyfrannu at y gwaith AG yn yr ysgol.
- Cylch o themâu tymhorol, megis rhai ar y Nadolig a'r Pasg.
- Cynnwys elfennau penodol o AG yng ngwaith y Blynyddoedd Cynnar.
- Darpariaeth dda ar gyfer datblygiad ysbrydol.

Cafodd aelodau'r CYSAG eu hatgoffa, er bod rhai o'r sylwadau uchod wedi'u priodoli i ysgolion penodol, nad oedd hynny'n golygu bod rhai o'r elfennau dan sylw yn bresennol mewn ysgolion eraill - dim ond bod sylw arbennig wedi'i roi iddynt mewn rhai ysgolion lle roeddent yn gwneud argraff neu gyfraniad arwyddocaol.

Trwy ddadansoddi'r sylwadau a wnaed yn nhermau **Agweddau i'w Datblygu** yn yr ysgolion yn y tri chonsortiw, cafodd yr agweddau canlynol eu harenwi'n benodol:

Cyfleoedd i'r disgyblion gynnig ymatebion personol i'r gwaith a wneir mewn AG a chyflwyno eu syniadau eu hunain.	9 ysgol
Dim un agwedd arwyddocaol y mae angen ei datblygu	7 ysgol
Yr angen i wella neu ddatblygu'r modd y cofnodir cyraeddiadau'r disgyblion	6 ysgol
Ystod rhy gyfyng o fathau o weithgareddau ar arddulliau dysgu	5 ysgol
Y potensial i ail-adrodd yn y cynllun gwaith, yn arbennig mewn perthynas â'r deunydd tymhorol	4 ysgol
Y tasgau a'r gweithgareddau heb fod yn datblygu'r dysgu mewn AG yn ddigonol	3 ysgol
Angen rhagor o adnoddau i gefnogi'r cynllun gwaith a adolygwyd.	3 ysgol

Angen rhagor o ddatblygu ar y cynllun gwaith.	2 ysgol
---	---------

Roedd yr holl agweddau eraill yr oedd angen eu datblygu ar gyfer ysgolion unigol. Roeddent fel a ganlyn:

- Angen i'r gwaith trafod weithiau arwain at gofnodi a sylwadau gan y disgyblion.
- Rhy ychydig o gyfleoedd i ddisgyblion gyfranogi yn y cyd-addoli.
- Yr elfen ysbrydol heb ei chynnwys yn ddigonol yn y cyd-addoliadau.
- Angen rhagor o gyfleoedd i adfyfyrion yn ystod y cyfnodau cyd-addoli.
- Mae angen rhoi ystyriaeth lawnach i oblygiadau tynnu disgyblion o wersi AG am flwyddyn gyfan er mwyn iddynt dderbyn darpariaeth AAA.
- Adeiladau ac ystafelloedd a'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â hwy.
- Yr angen am bwynt ffocws symbolaidd ar gyfer y cyfnodau cyd-addoli.
- Angen am ragor o waith ysgrifenedig am grefyddau ar wahân i Gristnogaeth.
- Angen ymwneud yn llawn â gofynion y Maes Llafur Cytûn.
- Y berthynas rhwng y Cynllun Gwaith a'r Rhaglenni Astudio yn y Maes Llafur Cytûn.
- Cyflymder a her y gwersi
- Gwaith yn cael ei gofnodi yng Nghyfnod Allweddol 1.

O ystyried nifer fawr yr ysgolion oedd yn rhan o'r adolygiadau, roedd yr aelodau'n fodlon iawn nad oedd unrhyw faterion graddfa fawr yn codi, a bod y rhai a arenwyd eisoes yn cael sylw neu wedi cael sylw gan yr ysgolion.

O ran yr **Argymhellion** a wnaed, mae'r rhain yn dilyn yr Agweddau i'w Datblygu i raddau helaeth, ar wahân i'r manau hynny lle cyfeirir at barhau neu gynnal yr arfer dda a arenwyd. Ar draws y tri chonsortium, daeth y patrymau a ganlyn i'r amlwg yn y sylwadau:

Cynnal yr arfer dda a arenwyd mewn AG a/neu'r cyfnodau cyd-addoli	21 ysgol
Adolygu'r cynllun gwaith [hyn wedi'i arenwi eisoes gan yr ysgol]	9 ysgol
Datblygu gweithdrefnau asesu a chofnodi ar gyfer AG	8 ysgol
Parhau i ddatblygu'r medrau allweddol trwy'r gwaith a wneir mewn AG	7 ysgol
Cynnwys mwy o dasgau i ymglymu'r disgyblion yn y dysgu ac AG/neu trwy ymateb i AG.	6 ysgol
Gwirio'r modd y mae gofynion y Maes Llafur Cytûn yn cael eu cyflawni	4 ysgol
Mireinio'r gwaith y Blynnyddoedd Cynnar er mwyn rhoi sylw i'r elfennau o AG a arenwir yn Fframwaith y Cam Sylfaen	2 ysgol

Adolygu'r trefniadau ail-adrodd yn y cynllun gwaith, yn arbennig mewn perthynas â gwaith tymhorol	2 ysgol
Adolygu'r polisi ar gyfer cyd-addoliad	2 ysgol
Parhau gyda'r gweithdrefnau monitro ac arfarnu sydd eisoes wedi'u sefydlu.	2 ysgol
Cynnal y cysylltiadau da gyda'r gymuned gred yn y gymuned	2 ysgol
Dilyn y Cynllun Gweithredu ar gyfer AG i'w ddiwedd	2 ysgol

Roedd yr holl argymhellion eraill ar gyfer ysgolion unigol, fel a ganlyn:

- Adolygu'r weithdrefn ar gyfer tynnu disgyblion o wersi AG am flwyddyn er mwyn iddynt gael darpariaeth AG.
- Arfarnu'r adnoddau ar gyfer cyd-addoli/adfyfyrio, ac ystyried sut y maent yn cael eu defnyddio a sut y gall disgyblion gyfranogi neu ymateb i raddau helaethach yn ystod y cyfnodau cyd-addoli yn y gwahanol flynyddoedd.
- Cwtogi ar nifer y crefyddau a astudir yn ystod y cyfnod allweddol o un o leiaf, er mwyn symud yn agosach at ofynion y Maes Llafur Cytûn.
- Darparu pwynt ffocws symbolaidd ar gyfer y cyfnodau cyd-addoli.
- Adolygu ansawdd y gwaith a gefnogir mewn AG.
- Sicrhau bod rhagor o'r gwaith trafod da yn cael ei adlewyrchu yn y gwaith ysgrifenedig a gynhyrchir.
- Trefnu mwy o gyfleoedd i ysgrifennu'n rhydd.
- Darparu rhagor o adnoddau i gyfateb i'r cynllun gwaith diwygiedig.
- Sicrhau bod mwy o waith ysgrifennu yn cael ei gwblhau mewn perthynas â'r crefyddau ar wahân i Gristnogaeth a gyflwynir yn y cynllun gwaith.
- Cynnal yr ystod dda iawn o strategaethau addysgu a dysgu.
- Gwneud llawn ddefnydd o'r adnoddau gweledol ardderchog am fannau addoliad lleol.
- Ychwanegu at y dyraniad amser yn un o'r cyfnodau allweddol.
- Arfarnu'r taflenni gwaith a ddefnyddir yn y cynllun gwaith ar gyfer AG.
- Arfarnu'r tasgau a osodir mewn AG er mwyn sicrhau eu bod yn arwain at ddealltwriaeth a datblygiad crefyddol.
- Cynnwys Cristnogaeth a/neu ddysgeidiaethau crefyddol eraill wrth ystyried materion moesol.
- Cynyddu cyflymder a lefel yr her mewn gwersi.
- Sicrhau bod elfen ysbrydol amlycach yn y cyfnodau cyd-addoli.
- Parhau gyda'r cynnydd ardderchog a wnaed mewn hunan arfarnu yn yr ysgol.
- Datblygu mwy o waith ysgrifenedig yn CA1.
- Cynnal y cysylltiadau rhagorol gydag Adran AG yr Ysgol Uwchradd.

- Y cydlynwr AG i ymweld ag ysgol arall lle ceir arfer dda.
- Ymweliad pellach gan yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG i gael ei drefnu i arfarnu cynnydd.

Bu aelodau'r CYSAG yn falch iawn o dderbyn yr wybodaeth fanwl a ddarparwyd ar sail y Broses Monitro ac Arfarnu; mae wedi cynnig darlun mwy cynhwysfawr o deulu o ysgolion, ac mae ynddo'r potensial i alluogi'r CYSAG i gynnig cyngor a chefnogaeth i ysgolion lle mae materion arbennig yn bresennol. Fodd bynnag, mae effaith a goblygiadau rheoli'r lefel hon o adolygu ar amser yr Arolygwr/Ymgynghorydd yn rhywbeth sy'n cael ei gydnabod, a chytunodd y CYSAG a'r AALI i leihau nifer y Consortia Ysgol Uwchradd sydd i gael sylw mewn blwyddyn academaidd i ddaau. Parhawyd i ragweld y byddai'r holl ysgolion yn yr AALI yn cael sylw mewn adolygiad o'r fath yn ystod cyfnod o bum mlynedd.

(ii) Adroddiadau ar Arolygiadau

Cafodd tri-ar-ddeg o adroddiadau ar arolygiadau ysgolion eu hystyried yn ystod y flwyddyn, sef un ar ysgol fabanod, naw ar ysgolion cynradd, dau ar ysgolion uwchradd ac un ar ysgol arbennig.

Roedd y safonau mewn AG yr adroddwyd amdanynt yn y deg ysgol a arolygwyd fel a ganlyn:

	Da Iawn	Da	Boddhaol	Anfoddhaol	Gwael
Cyfnod Allweddol 1	2	7	2	0	0
Cyfnod Allweddol 2	0	6	3	0	0
Cyfnod Allweddol 3	1	1	0	0	0
Cyfnod Allweddol 4	0	2	0	0	0
TGAU RS	0	0	0	0	0
AG ôl-16	0	1	0	0	0
AS/A2 RS	0	1	0	0	0

Roedd yr agweddau ar yr adroddiadau a gafodd eu tanlinellu'n **fwyaf aml** fel agweddau da yr oedd angen eu canmol mewn dwy neu fwy o'r ysgolion fel a ganlyn:

Nodweddion cadarnhaol a arenwyd yn Adrannau AG yr Adroddiadau ar Arolygiadau:	<i>Nifer yr ysgolion:</i>
Gwybodaeth a dealltwriaeth o grefyddau ar wahân i Gristnogaeth	10
Safonau cyflawniad	10
Gwybodaeth a dealltwriaeth o Gristnogaeth	9
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Beibl/Storiau Beiblaidd	9
Gwybodaeth am gysyniadau a themâu crefyddol	7
Dim diffygion	6
Cyfleoedd i drafod materion a theimladau/materion moesol	5
Cyfleoedd/y gallu i fynegi eu syniadau a'u barn eu hunain.	5
Gwybodaeth ac Ymwybyddiaeth o hanesion enwogion	4
Ymweliadau ag eglwysi lleol/capeli/mannau addoliad	3
Perthynas y Cynllun Gwaith a'r Maes Llafur Cytûn	3
Cyfleoedd i ddatblygu/fynegi eu credoau eu hunain	3
Ymwybyddiaeth o effaith credoau ar ffordd o fyw	3
Cyfleoedd/y gallu i gyfryngu ynghylch effaith crefydd ar eu bywydau hwy eu hunain	3
Yn deall yr angen/yn amlygu sensitifrwydd mewn perthynas â chredoau/gwerthoedd pobl eraill	3
Y defnydd o arteffactau i gyfoethogi'r addysgu a'r dysgu	2
Cyfraniad AG i ddatblygiad YMCD y disgyblion	2
Dealltwriaeth/Ymwybyddiaeth o'r angen i ofalu/rhannu	2

Roedd yr agweddau cadarnhaol eraill y cyfeiriwyd atynt mewn perthynas ag **ysgolion unigol** yn unig fel a ganlyn:

- Esiamplau o'r Gymru Gyfoes/y Cwricwlwm Cymreig ac AG
- Cyfraniad cyd-addoli /Y cysylltiadau rhwng cyd-addoli a'r rhaglen AG
- Cyfansoddi/Ysgrifennu eu gweddïau eu hunain
- Y gallu i ofyn cwestiynau ac i ddatblygu dealltwriaeth
- Deall y gymuned a chyfrifoldeb am ei haelodau
- Sylwadau ar gyd-addoli yn adran AG yr adroddiad
- Y defnydd a wneir o gydweithredu/Gwaith Grŵp mewn gwersi AG
- Cyfleoedd i ddatblygu / y defnydd o fedrau ymchwilio/ gwaith ymchwil
- Yn gyfarwydd gyda thermau technegol / Geirfa
- CA4/ Darpariaeth dosbarthiadau arholiad ôl - 16 mewn RS
- Ymwybyddiaeth o gwestiynau sy'n codi yn sgil profiadau bob dydd
- Datblygiad y medrau allweddol trwy gyfrwng gwaith mewn AG

- Ymateb y disgyblion/ Adwaith i'r ddarpariaeth AG
- Natur / Ansawdd y tasgau a osodir mewn gwersi
- Cyfraniad pynciau eraill i'r dysgu mewn AG

Roedd yr agweddau oedd yn destun pryder a nodwyd yn yr adroddiad mewn perthynas â rhagor nag ysgolion unigol fel a ganlyn:

Agweddau ar AG oedd yn destun pryder yn yr Adroddiadau ar Arolygiadau	<i>Nifer yr ysgolion</i>
Ansawdd/amrywiaeth/digonolrwydd y gwaith ysgrifenedig mewn AG	3
Gwybodaeth a dealltwriaeth/cynhwysiad crefyddau ar wahân i Gristnogaeth	3
Y defnydd o arteffactau i gyfoethogi'r addysgu a'r dysgu	2

Roedd yr agweddau eraill oedd yn destun pryder yn yr adroddiadau ar **ysgolion unigol** fel a ganlyn:

- Datblygiad y medrau allweddol trwy'r gwaith mewn AG
- Cyfleoedd i ddatblygu / y defnydd o fedrau archwilio/ymchwil
- Ymwybyddiaeth effaith credoau ar ffordd o fyw
- Gwybodaeth/dealltwriaeth o gysyniadau a themâu crefyddol
- Cyfleoedd i drafod materion/teimladau cwestiynau moesol
- Cyfleoedd / Y gallu i fynegi eu syniadau eu hunain/ Mynegiant barn
- Natur / Ansawdd y tasgau a osodir yn ystod gwersi

Roedd yr aelodau'n falch bod nifer y sylwadau negyddol am fwy nag un ysgol yn gymharol fach, a bod y materion a arenwyd yn rhai y gellid delio â hwy yn rhwydd gan yr ysgolion eu hunain gyda chymorth yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG a swyddogion yr AALI. Yn yr un modd, roedd yr aelodau'n ymfalchio yn nifer sylweddol y sylwadau cadarnhaol a wnaed ar draws llawer o ysgolion, ac nad oedd gan chwech o'r ysgolion unrhyw ddiffygion. Roedd y ffaith fod oddeutu 80% o'r ysgolion a arolygwyd [o safbwynt y cyfnodau allweddol] wedi llwyddo i gyrraedd safonau da yn rhywbeth i longyfarch yr ysgolion yn ei gylch, fel yr oedd y ffaith na farnwyd bod unrhyw ysgol wedi cael graddau anfoddhaol neu wael. Unwaith eto, siomedig oedd gweld rhai sylwadau ynghylch cyd-addoli wedi'u cynnwys yn adran AG yr Adroddiad, er bod hynny'n groes i'r canllawiau arfer dda a gyhoeddir gan Estyn ei hun.

Er bod tair o'r ysgolion wedi crybwyll AG fel mater allweddol, roedd rhai o safbwynt "rhoi sylw i'r diffygion a nodwyd" neu "godi safonau yn y pynciau y barnwyd eu bod yn anfoddhaol".

Roedd yr arferiad o ysgrifennu at ysgolion yr oedd eu Hadroddiadau ar Arolygiadau yn cael eu hadolygu, i'w llongyfarch ar y pwyntiau da a godwyd yn yr adroddiadau ac i'w hatgoffa am y gwasanaethau a gynigir gan yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG a Swyddogion yr AALI o safbwynt rhoi sylw i unrhyw faterion problemus neu ddiffygion, yn parhau. Yn ogystal, cyfeiriwyd at y sylwadau negyddol o ymddangosodd yn y detholiad o adroddiadau dan sylw, lle roedd gofyn i'r ysgolion arfarnu eu darpariaeth eu hunain mewn perthynas â'r materion hynny.

(iii) Canlyniadau Arholiadau

Cafodd tabl manwl o ganlyniadau arholiadau [Atodiad IV] ei adolygu a'i drafod gan y CYSAG. Er bod yr aelodau yn siomedig oherwydd bod rhai o'r canlyniadau cyffredinol yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol unwaith eto, bu gwelliant pellach mewn perfformiad mewn cymhariaeth â llynedd, a theimlwyd ei bod yn bwysig i'r ysgolion gael eu llongyfarch ar welliant o'r fath. Ym maes Astudiaethau Grefyddol TGAU [yr holl fanylebau - cwrs llawn] bu gostyngiad bychan [1.7%] mewn perfformiad, ond roedd y perfformiad yn y canran A* - C yn parhau i fod 1.4% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 68.1%. Roedd nifer a pherfformiad y bechgyn wedi newid, gyda mwy o ymgeiswyr yn sefyll yr arholiad, ac o ganlyniad roedd y canlyniad 4.2% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol - ac yn welliant o oddeutu 6.6% ar y flwyddyn flaenorol. Roedd nifer y genethod a safodd yr arholiad wedi gostwng o 13 a bu dirywiad bychan yn eu canlyniadau i 1.2% yn uwch na chanlyniadau Cymru gyfan.

Yn y cyrsiau Byr Addysg Grefyddol [yr holl fanylebau] roedd niferoedd wedi gostwng unwaith eto, o tua 25 o ymgeiswyr, ac roedd y ffigyrau am y graddau A* - C yn 28.6%, sydd gryn dipyn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Nid oedd nifer yr ymgeiswyr na'r graddau a enillwyd yn unol â'r duedd genedlaethol ar gyfer y fanyleb hon. Roedd newidiadau arwyddocaol yng ngweithdrefnau'r ysgolion ar gyfer derbyn disgyblion, ac roedd hyn y cael effaith ar y canlyniadau, yn union fel roedd yr anawsterau a wynebwr wrth geisio didoli Manylebau A a B, gan fod y ddau ar gael un ai fel Cwrs Llawn TGAU neu fel cwrs byr TGAU.

Yn Lefel A, bu cynnydd o 4 yn nifer yr ymgeiswyr, ac roedd yr aelodau'n falch bod canran y graddau A - C wedi codi fel bod canlyniad yr AALL yn 77.8%, ffigwr oedd 8.9% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Wrth reswm, roedd y niferoedd yn fach, a chyfanswm y rhai a safodd yr arholiad yn 27, ffigwr a arweiniodd at anwadaliadau mawr yn ffigyrau'r canrannau.

Ar Lefel Mynediad (COEA yn flaenorol), gwelwyd gwelliant yn y canlyniadau, a chynnydd o ryw 50 yn nifer yr ymgeiswyr a Gradd Llwyddiant o 86.4% - dim ond 7.5% yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Teimlai'r aelodau bod y canlyniadau yn gyffredinol yn adlewyrchu'n dda ar yr ysgolion a'r sir ac roeddent yn awyddus i longyfarch Ysgol Uwchradd Prestatyn ar y gwaith arbennig i drawiadol a wnaed yno, gyda charfan mor niferus o ymgeiswyr yn yr arholiadau Lefel TGAU. Yn ogystal, bu peth trafod ar y diffyg ymgeiswyr TGAU llawn mewn rhai ysgolion, a'r ffaith nad oedd yr un disgybl yn sefyll yr arholiad mewn ysgolion eraill.

(c) Cyd-addoliad/Datblygiad YMCD

Yn ogystal ag ystyried adran AG yr Adroddiadau ar Arolygiadau, rhoddodd y CYSAG ystyriaeth i adrannau datblygiad YMCD yr Adroddiadau. Roedd y canlyniadau o safbwynt y ddarpariaeth ar gyfer YMCD (*) am y flwyddyn fel a ganlyn::

Da Iawn	Da	Yn hyrwyddo'n dda iawn	Darpariaeth Dda/Effeithiol	Boddhaol	Anfoddhaol
3	5	3	1	1	0

(*) *Y barnau yn seiliedig ar YMCD yn ei gyfanrwydd neu ar ddatblygiad ysbrydol lle caiff hynny ei arenwi ar wahân.*

Trwy ddadansoddi'r sylwadau ar gyd-addoliad a datblygiad YMCD yn eu cyfanrwydd, roedd y nodweddion cadarnhaol a arenwyd yn **fwyaf aml** ar gyfer dwy neu fwy o ysgolion fel a ganlyn:

Nodweddion Cadarnhaol a arenwyd mewn Adroddiadau ar Arolygiadau (YCMD):	Nifer yr Ysgolion:
Y Cwricwlwm Cymreig / Ymwybyddiaeth Gymreig	11
Darpariaeth ar gyfer datblygiad YCMD	11

Cadwraeth/hyrwyddo gwerthoedd/ moesau da/parch	9
Gweithgareddau all-gwricwlaidd/cyfleoedd	9
Cefnogaeth i elusennau ac achosion da	8
Gwybodaeth a dealltwriaeth o dda a drwg	8
Cydymffurfio gyda'r gofynion statudol ar gyfer cyd-addoliad	8
Cyfleoedd i dderbyn cyfrifoldeb /dangos blaengaredd	8
Ansawdd perthnasau	7
Datblygiad cymdeithasol/rhyngweithiad/medrau rhyngpersonol	7
Cysylltiadau gyda/ymwneud â'r gymuned leol	7
Cyfleoedd i adfyfrio	7
Nodweddion y weithred o gyd-addoli	7
Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddiwylliannau a thraddodiadau eraill	6
Amcanion da/ethos cyffredinol	6
Cyfleoedd i gyd-ymwneud/cydweithredu	6
Datblygiad ysbrydol	5
Ansawdd y weithred gyd-addoli	5
Darpariaeth dda ar gyfer datblygiad diwylliannol	5
Dinasyddiaeth Fyd-eang/Addysg Fyd/Cysylltiadau Rhyngwladol	5
Rhaglen ar gyfer/ Effaith y ddarpariaeth ABACH	5
Gwaith y Cyngor Ysgol	5
Y polisi ar hiliaeth/hyrwyddo cytgord hiliol	4
Y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad moesol a chymdeithasol	4
Cyfraniad y drefn ar gyfer cyd-addoli i'r ddarpariaeth i ddatblygu YMCD	4
Cyfraniad y disgyblion i'r trefniadau cyd-addoli	4
Cyfraniad pynciau eraill i ddatblygiad ac i'r ddarpariaeth ar gyfer YMCD	4
Ymateb y disgyblion i'r ddarpariaeth YMCD	2
Y staff/oedolion fel modelau rôl priodol i'r disgyblion	2
Cyfraniad AG i ddatblygiad a'r ddarpariaeth ar gyfer YMCD	2
Ymweliadau i fannau addoli yn yr ardal	2

Roedd y nodweddion cadarnhaol eraill y cyfeiriwyd atynt mewn perthynas ag ysgolion **unigol** yn unig, ac roeddent fel a ganlyn:

- Polisi ar gyd-addoli

- Ystyried/Perthnasu materion i'w bywydau hwy eu hunain a bywydau pobl eraill
- Bwyta'n Iach/ Materion amgylcheddol / Cynladwyedd
- Parchedig ofn a rhyfeddod
- Cynnydd disgyblion / Yn ennill hyder a medrau
- Ymwybyddiaeth / Hyrwyddiad datblygiad cynaliadwy

Roedd yr agweddau oedd yn destun pryder mewn perthynas ag ysgolion unigol yn unig, a'r manylion amdanynt fel a ganlyn:

- Gwybodaeth/Dealltwriaeth/Ymwybyddiaeth o wersi a thraddodiadau eraill
- Rhaglen ar gyfer/Effaith y ddarpariaeth ABACH
- Y Cwricwlwm Cymreig / Y Dimensiwn Cymreig
- Parchedig ofn a rhyfeddod
- Cyfraniad y cyd-addoli i ddatblygiad YCMD
- Cydymffurfriad â'r gofynion statudol mewn perthynas â chyd-addoli
- Polisi ar gyfer cyd-addoli

Dim ond un ysgol oedd â chyd-addoli a'i darpariaeth ar gyfer YCMD wedi'i nodi fel mater allweddol yn eu Hadroddiad. O'r herwydd, roedd yr aelodau'n falch iawn gyda'r rhestr hir o sylwadau cadarnhaol a gafwyd o'r ysgolion - yn enwedig y rhai oedd yn berthynol i lawer o ysgolion, ac yr un mor falch oherwydd mai dim ond pedwar sylw negyddol a gafwyd mewn nifer fach o ysgolion, a dim ond wyth ar gyfer ysgolion unigol.

Serch hynny, fe gynigiwyd yr un lefel o gefnogaeth yn sgil yr arolygiadau i'r ysgolion gan yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG a Swyddogion yr AALI. Roedd y llythyr llongyfarch gan y CYSAG yn cynnwys sylw ynghylch y sylwadau YCMD uchod, rhannwyd y sylwadau negyddol gyda'r CYSAG yn y sesiwn honn a gwahoddwyd yr ysgolion i ystyried eu darpariaeth eu hunain mewn perthynas â'r materion hynny.

(d) Darpariaeth HMS

Oherwydd y newidiadau a wnaed i'r trefniadau i ariannu Hyfforddiant mewn Swydd gan Lywodraeth y Cynulliad, a'r ffaith nad yw pynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ac AG wedi'u cynnwys yn y meini prawf ar gyfer Cyllido Gwell Ysgolion, ni fu'n bosibl i gynnal unrhyw gyrsiau ar gyfer Addysg Grefyddol yn ystod y flwyddyn academaidd.

Mae'n bosibl bod gan rai athrawon fynediad i gyllid gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, ond oherwydd mai gan athrawon ac ysgolion unigol y gwneir y ceisiadau hyn, nid yw'n bosibl i'r AALI na'r Arolygwr/Ymgynghorydd AG wybod am ddatblygiadau o'r fath, ar wahân i'r achlysurol hynny pan roir gwybod iddynt neu pan anfonir gwahoddiad iddynt.

Fodd bynnag, mewn ymateb i drafodaethau gyda'r AALI, darparwyd diwrnod o hyfforddiant i'r holl athrawon AG uwchradd yn yr awdurdod yn ystod yn o'r Dyddiau Hyfforddi Staff penodedig. Roedd yr agweddau y rhoddwyd sylw iddynt yn cynnwys:

- Y gwasanaethau a gynigir i athrawon gan Gymorth Cristnogol.
- Datblygiadau ym maes AG a Blaenoriaethu Anghenion.
- Deunyddiau Asesu Opsiynol ACCAC ar gyfer AG.
- Fframwaith newydd Estyn a Hunan-arfarnu.
- Model Sir Ddinbych ar gyfer Hunan Asesu.
- Rhannu Arfer Dda.

(e) Materion Eraill

1. Materion Cyffredinol

- (i) Roedd y Clerc wedi gweithredu mewn perthynas â bylchau yn yr aelodaeth ac roedd rhai enwebiadau newydd yn cael eu derbyn. Yn ogystal, roedd rhai cynrychiolwyr crefyddol yn cael eu newid. Diolchwyd i'r rhai oedd yn symud neu'n ymddeol am eu cyfraniadau, gan gynnwys y Chwaer Elizabeth Kelly, Jean Hannam, Y Parch John Owen yn ogystal â'r Cyfarwyddwr blaenorol y Gyfarwyddiaeth Dysgu Gydol Oes, Mrs Sioned Bowen. Anfonwyd llythyrâu o ddiolch a gwerthfawrogiad i'r aelodau hyn.
- (ii) Nid oedd wedi bod yn bosibl i ystyried symud ymlaen gyda Fforwm Ffydd yr Ifanc er bod ceisiadau am gyllid wedi'u gwneud i lawer o gyrff gwahanol. Roedd yn eglur y byddai cynnal digwyddiad o'r fath yn dibynnu ar gael athrawon llanw a chyllid i ad-dalu costau teithio.
- (iii) Mae'r CYSAG wedi parhau gyda'r broses o wahodd athrawon i ddisgrifio ac arddangos sut y mae AG yn cael ei darparu yn eu hysgolion. Yn ystod y flwyddyn mae Pennaeth AG mewn Ysgol Uwchradd a dau gydlynwr AG - un o Ysgol Gynradd ac un o Ysgol Fabanod - wedi gwneud cyflwyniad i aelodau'r CYSAG. Yn sgil hynny, teimlai'r aelodau bod ganddynt fwy o

wybodaeth ac roeddent yn ddiolchgar am eu bod wedi clywed sut roedd pethau'n digwydd yn ymarferol ac am eu bod wedi cael cyfle i ofyn cwestiynau. Cawsant eu calonogi gan ymrwymiad a phroffesiynoldeb yr aelodau staff oedd yn gyfrifol am ddarparu AG.

- (iv) Roedd llythyr wedi'i dderbyn gan Gytûn Y Rhyl mewn perthynas ag absenoldeb unrhyw fan addoli ar gyfer Cristnogion neu unrhyw grefyddwyr eraill yn Ne'R Rhyl. Diolchodd y CYSAG i Gytûn am eu llythyr, ond ystyriai'r aelodau bod mater o'r fath tu hwnt i gyfrifoldeb y CYSAG. Cytunwyd i ddymuno'n dda i Gytûn Y Rhyl yn eu hymdrechion.
- (v) Yn ogystal, roedd yr Eglwys Bresbyteraidd yng Nghymru wedi gwneud cais am gael gwybod sut roedd y CYSAG yn ymateb i'r newidiadau yn y trefniadau Arolygu, a sut roedd sicrhau bod y swyddogaeth fonitro yn cael ei chynnal. Cafodd ymateb ei anfon gan yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG yn rhoi manylion am y Trefniadau Monitro a Chefnogi Newydd.

2. ACCAC

Roedd y CYSAG yn falch o anfon cynrychiolwyr i lansiad swyddogol Defnyddiau Asesu Opsiynol ACCAC ar gyfer AG ac i'w cymeradwyo i ysgolion yr AALI. Yn ogystal, roedd yr aelodau'n ymfalchïo yn y ffaith fod yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG wedi cymryd rhan yn y cyflwyniadau trwy gynnig cefnogaeth ar ran y Panel Ymgynghorol ar gyfer AG, yn ei swyddogaeth fel Cadeirydd a hefyd fel arweinydd grŵp gweithdy yn ystod y dydd.

Roedd yr Aelodau hefyd yn falch o gael gwybod bod ACCAC yn cychwyn ar adolygiad o'r Cwricwlwm Cenedlaethol a bod AG yn cael ei chynnwys yn y broses ar yr un pryd ac yn yr un modd a'r pynciau eraill. Yn ogystal cafodd y ffaith fod yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG wedi'i gynnwys fel aelod o Weithgor AG ACCAC ei chroesawu. Edrychai'r Aelodau ymlaen am gael derbyn rhagor y wybodaeth yn ystod y flwyddyn academiaidd nesaf.

3. CCCYSAG

Roedd y CYSAG yn parhau i fod yn aelod o'r Gymdeithas ac yn parhau i dderbyn papurau ac adroddiadau, yn gystal â diweddariadau interim, ym mhob cyfarfod.

Unwaith eto, roedd yr Aelodau'n falch fod yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG wedi cael ei enwebu fel Is-gadeirydd y Gymdeithas.

Derbyniodd yr Aelodau wybodaeth am y ddirprwyaeth a ymwelodd â'r Gweinidog Addysg a Dysgu Gydol Oes, ac am y broses o ddeialog a thrafod oedd yn mynd rhagddi.

I derfynu, cytunwyd gyda'r cais a wnaed gan y Gymdeithas i ohirio unrhyw adolygiad o'r Maes Llafur Cytûn, nes bydd canlyniad yr adolygiad ar y Cwricwlwm Cenedlaethol sy'n cael ei wneud gan ACCAC wedi'i gwblhau. Trefnwyd i gynnal Cynhadledd y Maes Llafur Cytûn ar ddiwedd cyfarfod nesaf y CYSAG er mwyn rhoi sêl bendith ffurfiol i dderbyn y cynnig hwnnw.

(f) Atodiadau:

Atodiad I: Dyddiadau Cyfarfodydd y CYSAG

Atodiad II: Aelodaeth y CYSAG

Atodiad III: Rhestr y Sefydliadau sy'n derbyn yr adroddiad

Atodiad IV: Tabl Canlyniadau Arholiadau (fel y cawsant eu cyflwyno i'r CYSAG)

Atodiad 1: Dyddiadau Cyfarfodydd y CYSAG

11 Hydref 2004

3 Chwefror 2005

6 Gorffennaf 2005

Atodiad II: Aelodaeth y CYSAG

Yn Cynrychioli'r Enwadau Crefyddol:

Yr Eglwys yng Nghymru

Terry Bryer

Sylvia Harris

Yr Eglwys Gatholig

Stephanie Flavell

(Ymddiswyddodd10/04)

James Kirkham

Undeb y Bedyddwyr

Dr C W Jones (Cymraeg)

Yn aros am enwebiad(Saesneg)

Y Methodistiaid

Heulwen Ellis

Undeb yr Annibynwyr Cymreig

Mona Evans

Byddin yr Iachawdwriaeth

Major David Evans

Yn Cynrychioli Cymdeithasau'r Athrawon

Pennaeth Ysgol Gynradd

Sister Elizabeth Kelly (Ymddeolodd Chwef '05)

Yn aros am enwebiad

Arbenigwr AG Uwchradd

Delyth Williams

Pennaeth Babanod

Mrs Jean Hannam (tan Gor. '05)

Julia Buckley-Jones (o Fedi '05)

Athrawon Ysgolion Arbennig

Isobel Barros-Curtis

Athro Dosbarth Ysgol Iau

Maxine Bradshaw

Athro Dosbarth Ysgol Babanod

Mrs Mairwenna B. Lloyd

Yn Cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych

Y Cyngorydd K N Hawkins

Y Cyngorydd M M Jones

Y Cyngorydd C.L. Hughes

Y Cyngorydd N Hugh-Jones

Y Cyngorydd D. Owens

Y Cyngorydd G.C. Evans

Y Cyngorydd G.J. Pickering

Y Cyngorydd G.A. Jones

Aelodau Cyfetholedig

Canolfan Genedlaethol AG Cymru

Y Parch, Athro Ganon Leslie J Francis

Mudiad Addysg Gristnogol Cymru

Y Parch. Robert Townsend

(Ymddiswyddiad Mehefin'05)

Atodiad III: Rhestr o'r Sefydliadau sy'n derbyn yr Adroddiad:

ACCAC

Pob un o ysgolion a Cholegau'r AALI

Canolfan Genedlaethol AG Cymru

Pob AALI yng Nghymru

Esgobaeth Llanelwy

Esgobaeth Bangor

Esgobaeth Wrecsam

Coleg y Drindod, Caerfyrddin

Y Gynghair Efengylaidd

CCYSAGC

Ysgolion Sir Ddinbych Tabl A CANLYNIADAU TGAU 2004: PAWB – ASTUDIAETHAU CREFYDDOL
Denbighshire Schools Table A GCSE RESULTS 2004: ALL – RELIGIOUS STUDIES

<i>Ysgolion Schools</i>	<i>Cyfanswm /Totals</i>	<i>% Cydran Cohort</i>	<i>A*</i>	<i>%</i>	<i>A</i>	<i>%</i>	<i>B</i>	<i>%</i>	<i>C</i>	<i>%</i>	<i>D</i>	<i>%</i>	<i>E</i>	<i>%</i>	<i>F</i>	<i>%</i>	<i>G</i>	<i>%</i>	<i>U</i>	<i>%</i>	<i>% A* - C</i>	<i>% A* - G</i>
<i>Dinbych Denbigh</i>	20	12.7	1	5.0	2	10.0	4	20.0	3	15.0	2	10.0	4	20.0	3	15.0	0	0.0	1	5.0	50.0	95.0
<i>Glan Clwyd</i>																						
<i>Prestatyn</i>	154	59.2	10	6.5	33	21.4	41	26.6	31	20.1	9	5.8	18	11.7	6	3.9	4	2.6	2	1.3	74.7	98.7
<i>Dinas Brân</i>	11	5.6	1	9.1	2	18.2	1	9.1	3	27.3	1	9.1	0	0.0	0	0.0	2	18.2	1	9.1	63.6	90.9
<i>Brynhyfryd</i>	16	8.0	3	18.8	2	12.6	3	18.8	3	18.8	3	18.8	1	6.3	1	6.3	0	0.0	0	0.0	68.8	100
<i>Y Rhyl /Rhyl</i>																						
<i>Ben Ed Jones/Bl. Ed Jones</i>	49	59.8	3	6.1	1	2.0	7	14.3	11	22.4	8	16.3	8	16.3	5	10.2	2	4.1	4	8.2	44.9	91.8
<i>Santes Ffraid/ St Brigids</i>	52	98.1	12	23.1	14	26.9	16	30.8	3	5.8	2	3.8	3	5.8	1	1.9	1	1.9	0	0.0	86.5	100
<i>Cyfanswm AAL/ LEA Totals</i>	302		30	9.9	54	17.9	72	23.8	54	17.9	25	8.3	34	11.2	16	5.3	9	3.0	8	2.6	68.5	97.4
<i>Cronnol/ Cumulative</i>	302		30	9.9	84	27.8	156	51.6	210	69.5	235	77.8	269	89.1	285	94.3	294	97.3	302	100	68.5	97.4
<i>Cymru gyfan All Wales</i>	5972		709	11.9	1742	29.2	2966	49.7	4064	68.1	4715	79.0	5239	87.7	5567	93.2	5780	96.8	5972	100	68.1	96.8

Ysgolion Sir Ddinbych – TABL B
Denbighshire Schools – Table B

CANLYNIADAU TGAU 2004 BECHGYN – ASTUDIAETHAU CREFYDDOL
GCSE RESULTS 2004 BOYS – RELIGIOUS STUDIES

Ysgolion/ Schools	Cyfanswm Totals	% Cydran/ Cohort	A*	%	A	%	B	%	C	%	D	%	E	%	F	%	G	%	U	%	% A*-C	% A*-G
<i>Dinbych Denbigh</i>	4	4.6	0	0.0	0	0.0	1	25.0	1	25.0	1	25.0	0	0.0	1	25.0	0	0.0	0	0.0	50.0	100
<i>Glan Clwyd</i>																						
<i>Prestatyn</i>	90	60.1	3	3.3	17	18.9	24	26.7	23	25.6	7	7.8	11	12.2	1	1.1	3	3.3	1	1.1	74.4	98.9
<i>Dinas Brân</i>	4	4.2	0	0.0	0	0.0	0.0	0.0	0	0.0	1	25.0	1	25.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	50.0	100
<i>Brynhyfryd</i>	4	3.8	2																			
<i>Y Rhyl/Rhyl</i>																						
<i>Ben Ed Jones/Bl. Ed Jones</i>	22	57.9	1	4.5	0	0.0	2	9.1	3	13.6	3	13.6	5	22.7	2	9.1	2	9.1	4	18.2	27.3	81.8
<i>Santes Fraid St Brigids</i>																						
<i>Cyfanswm AALI/ LEA Totals</i>	124		6	4.8	17	13.7	28	22.6	27	21.8	13	10.5	17	13.7	4	3.2	7	5.7	5	4.0	62.9	96.0
<i>Cronnol/ Cumulative</i>	124		6	4.8	23	18.5	51	41.1	78	62.9	91	73.4	108	87.1	112	90.3	119	96.0	124	100	62.9	96.0
<i>Cymru gyfan/ All Wales</i>	2048		161	7.9	432	21.1	815	39.8	1203	58.7	1475	72.0	1695	82.8	1834	89.6	1944	94.9	2048	100	58.7	94.9

Ysgolion Sir Ddinbych **TABL C**
Denbighshire Schools **TABLE C**

CANLYNIADAU TGAU 2004 MERCHED – ASTUDIAETHAU CREFYDDOL
GCSE RESULTS 2004: GIRLS – RELIGIOUS STUDIES

<i>Ysgolion/ Schools</i>	<i>Cyfanswm /Totals</i>	<i>% Cydran// Cohort</i>	<i>A*</i>	<i>%</i>	<i>A</i>	<i>%</i>	<i>B</i>	<i>%</i>	<i>C</i>	<i>%</i>	<i>D</i>	<i>%</i>	<i>E</i>	<i>%</i>	<i>F</i>	<i>%</i>	<i>G</i>	<i>%</i>	<i>U</i>	<i>%</i>	<i>% A* - C</i>	<i>% A* - G</i>
<i>Ddinbych Denbigh</i>	16	22.5	1	6.3	2	12.5	3	18.8	2	12.5	1	6.3	4	25.0	2	12.5	0	0.0	1	6.3	50.0	93.8
<i>Glan Clwyd</i>																						
<i>Prestatyn</i>	64	57.1	7	10.9	16	25.0	17	26.6	8	12.5	2	3.1	7	10.9	5	7.8	1	1.6	1	1.6	75.0	98.4
<i>Dinas Brân</i>	7	6.9	1	14.3	2	28.6	0	0.0	3	42.9	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	1	14.3	85.7	85.7
<i>Brynhyfryd</i>	12	12.6	1	8.3	2	16.6	3	24.9	3	24.9	2	16.6	0	0.0	1	8.3	0	0.0	0	0.0	75.0	100
<i>Y Rbyl/ Rhyl</i>																						
<i>Ben Ed Jones/Bl. Ed Jones</i>	27	61.4	2	7.4	1	3.7	5	18.5	8	29.6	5	18.5	3	11.1	3	11.1	0	0.0	0	0.0	59.3	100
<i>Santes Ffraid/ St Brigids</i>	52	98.1	12	23.1	14	26.9	16	30.8	3	5.8	2	3.8	3	5.8	1	1.9	1	1.9	0	0.0	86.5	100
<i>Cyfanswm AALL LEA Totals</i>	178		24	13.5	37	20.8	44	24.7	27	15.2	12	6.7	17	9.6	12	6.7	2	1.1	3	1.7	74.2	98.3
<i>Cronnol Cumulative</i>	178		24	13.5	61	34.3	105	59.0	132	74.2	144	80.9	161	90.5	173	97.2	175	98.3	178	100	74.2	98.3
Cymru gyfan All Wales	3924		548	14.0	1310	33.4	2151	54.8	2861	72.9	3240	82.6	3544	90.3	3733	95.1	3836	97.6	3924	100	72.9	97.8

Ysgolion Sir Ddinbych – Tabl CH
Denbighshire Schools – Table D

CANLYDIADAU TGAU 2004 PAWB – ASTUDIAETHAU GREFYDDOL: CWRS BYR
GCSE RESULTS 2004: ALL – RELIGIOUS EDUCATION SHORT COURSE

<i>Ysgolion Schools</i>	<i>Cyfanswm/Total s</i>	<i>% Cydran Cohort</i>	<i>A*</i>	<i>%</i>	<i>A</i>	<i>%</i>	<i>B</i>	<i>%</i>	<i>C</i>	<i>%</i>	<i>D</i>	<i>%</i>	<i>E</i>	<i>%</i>	<i>F</i>	<i>%</i>	<i>G</i>	<i>%</i>	<i>U</i>	<i>%</i>	<i>% A* - C</i>	<i>% A* - G</i>
<i>Dinbych Denbigh</i>	48	30.4	2	4.2	2	4.2	8	16.7	19	39.6	8	16.7	7	14.6	1	2.1	0	0.0	1	2.1	64.6	97.6
<i>Glan Clwyd</i>	116	58.3	1	0.9	4	3.4	17	14.7	30	25.9	25	21.6	17	14.7	14	12.1	6	5.2	2	1.7	44.8	98.3
<i>Prestatyn</i>	7	2.7	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	1	14.3	6	85.7	0.0	14.3
<i>Dinas Brân</i>	67	34.0	3	4.5	2	3.0	10	14.9	17	25.4	8	11.9	10	14.9	8	11.9	4	6.0	5	7.5	47.8	92.5
<i>Brynhyfryd</i>																						
<i>Y Rhyl /Rhyl</i>																						
<i>Ben Ed Jones/Bl. Ed Jones</i>	7	8.5	0	0.0	0	0.0	1	14.3	1	14.3	2	28.6	2	28.6	1	14.3	0	0.0	0	0.0	28.6	100
<i>Santes Ffraid/ St Brigids</i>	1	1.9	0	0.0	0	0.0	1	100	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	100	100
<i>Cyfanswm AALL LEA Totals</i>	246		6	2.4	8	3.3	37	15.0	67	27.3	43	17.4	36	14.7	24	9.7	11	4.5	14	5.7	48.0	94.3
<i>Cronnol Cumulative</i>	246		6	2.4	14	5.7	51	20.7	118	48.0	161	65.4	197	80.1	221	89.8	232	94.3	246	100	48.0	94.3
<i>Cymru gyfan All Wales</i>	11767		806	6.8	2139	18.2	4321	36.7	6871	58.4	8506	72.3	9700	82.4	10596	90.0	11240	95.5	11767	100	58.4	95.5

Ysgolion Sir Ddinbych – Tabl D CANLYDIADAU TGAU 2004 BECHGYN – ASTUDIAETHAU GREFYDDOL: CWRS BYR
Denbighshire Schools – Table E GCSE RESULTS 2004: BOYS RELIGIOUS EDUCATION SHORT COURSE

Ysgolion Schools	Cyfanswm Totals	% Cydran Cohort	A*	%	A	%	B	%	C	%	D	%	E	%	F	%	G	%	U	%	% A* - C	% A* - G
<i>Dinbych Denbigh</i>	10	11.5	1	10.0	0	0.0	1	10.0	3	30.0	3	30.0	2	20.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	50.0	100
<i>Glan Clwyd</i>																						
<i>Prestatyn</i>	4	2.7	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	1	25.0	3	75.0	0.00	25.0
<i>Dinas Brân</i>	20	21.0	0	0.0	0	0.0	2	10.0	4	20.0	4	20.0	4	20.0	3	15.0	2	10.0	1	5.0	30.0	95.0
<i>Brynhyfryd</i>																						
<i>Y Rhyl/Rhyl</i>	47	43.5	1	2.1	1	2.1	6	12.8	12	25.5	10	21.3	6	12.8	7	14.9	4	8.5	0	0.0	42.6	100
<i>Ben Ed Jones/Bl. Ed Jones</i>	3	7.9	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	1	33.3	2	66.7	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0.0	100
<i>Santes Ffraid/ St Brigids</i>																						
<i>Cyfanswm AALL LEA Totals</i>	84		2	2.4	1	1.2	9	10.7	19	22.6	18	21.4	14	16.7	10	11.9	7	8.3	4	4.8	36.9	95.2
<i>Cronnol Cumulative</i>	84		2	2.4	3	3.6	12	14.3	31	36.9	49	58.3	63	75.0	73	86.9	80	95.2	84	100	36.9	95.2
<i>Cymru gyfan All Wales</i>	5591		213	3.8	713	12.8	1613	28.8	2858	51.1	3686	65.9	4336	77.6	4853	86.8	5246	93.8	5591	100	51.1	93.8

Ysgolion Sir Ddinbych - Tabl DD
Denbighshire Schools – Table F

CANLYNIADAU TGAU 2004: MERCHED – ADYSG GREFYDDOL: CWRS BYR
GCSE RESULTS 2004: GIRLS – RELIGIOUS EDUCATION SHORT COURSE

<i>Ysgolion Schools</i>	<i>Cyfanswm Totals</i>	<i>% Cydran Cohort</i>	A*	%	A	%	B	%	C	%	D	%	E	%	F	%	G	%	U	%	% A*-C	% A*-G
<i>Dinbych Denbigh</i>	38	53.5	1	2.6	2	5.3	7	18.4	16	42.1	5	13.2	5	13.2	1	2.6	0	0.0	1	2.6	68.4	97.4
<i>Glan Clwyd</i>																						
<i>Prestatyn</i>	3	2.7	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	3	100	0.0	0.0
<i>Dinas Brân</i>	47	46.1	3	6.4	2	4.3	8	17.0	13	27.7	4	8.5	6	12.8	5	10.6	2	4.3	4	8.5	55.3	91.5
<i>Brynhyfryd</i>																						
<i>Y Rhyl /Rhyl</i>	69	75.8	0	0.0	3	4.3	11	15.9	18	26.1	15	21.7	11	15.9	7	10.1	2	2.9	2	2.9	46.4	97.1
<i>Ben Ed Jones/Bl. Ed Jones</i>	4	9.1	0	0.0	0	0.0	1	25.0	1	25.0	1	25.0	0	0.0	1	25.0	0	0.0	0	0.0	50.0	100
<i>Santes Ffraid/ St Brigids</i>	1	1.9	0	0.0	0	0.0	1	100	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	100	100
<i>Cyfanswm AALL LEA Totals</i>	162		4	2.5	7	4.3	28	17.3	48	29.6	25	15.4	22	13.6	14	8.7	4	2.5	10	6.2	53.7	93.8
<i>Cronnol Cumulative</i>	162		4	2.5	11	6.8	39	24.1	87	53.7	112	69.1	134	82.7	148	91.4	152	93.8	162	100	53.7	93.8
<i>Cymru gyfan All Wales</i>	6176		593	9.6	1426	23.1	2708	43.8	4013	65.0	4820	78.0	5364	86.9	5743	93.0	5994	97.1	6176	100	65.0	97.1

Ysgolion Sir Ddinbych – Tabl E – CANLYNIADAU SAFON UWCH 2004 – PAWB ASTUDIAETHAU CREFYDDOL
Denbighshire Schools – Table G GCE ADVANCED LEVEL RESULTS 2004: ALL – RELIGIOUS STUDIES

<i>Ysgolion Schools</i>	<i>Cyfanswm Totals</i>	A	%	B	%	C	%	D	%	E	%	U	%	% A - C	% A - E
<i>Dinbych Denbigh</i>	2	0	0.0	1	50.0	1	50.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	100	100
Glan Clwyd															
Prestatyn	13	3	23.1	8	67.5	2	15.4	0	0.0	0	0.0	0	0.0	100	100
Dinas Brân	2	0	0.0	0	0.0	1	50.0	1	50.0	0	0.0	0	0.0	50.0	100
Brynhyfryd	1	1	100	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	100	100
<i>Y Rhyl/Rhyl</i>															
<i>Ben Ed Jones/Bl. Ed Jones</i>															
<i>Santes Ffraid St Brigids</i>	9	0	0.0	2	22.2	0	22.2	3	33.3	2	22.2	0	0.0	44.4	100
<i>Cyfanswm AALL LEA Totals</i>	27	4	14.8	11	40.8	6	22.2	4	14.8	2	7.4	0	0.0	77.8	100
<i>Cronnol Cumulative</i>	27	4	14.8	15	55.6	21	71.8	25	92.6	27	100	27	100	77.8	100
<i>Cymru gyfan All Wales</i>	747	124	16.6	323	43.2	515	68.9	668	89.4	731	97.9	747	100	68.9	97.9

Ysgolion Sir Ddinbych – Tabl F – CANLYNIADAU SAFON UWCH 2004 – BECHGYN ASTUDIAETHAU CREFYDDOL
Denbighshire Schools – Table H GCE ADVANCED LEVEL RESULTS 2004: BOYS – RELIGIOUS STUDIES

<i>Ysgolion Schools</i>	<i>Cyfanswm Totals</i>	<i>A</i>	<i>%</i>	<i>B</i>	<i>%</i>	<i>C</i>	<i>%</i>	<i>D</i>	<i>%</i>	<i>E</i>	<i>%</i>	<i>U</i>	<i>%</i>	<i>% A - C</i>	<i>% A - E</i>
<i>Dinbych Denbigh</i>															
<i>Glan Clwyd</i>															
<i>Prestatyn</i>	1	0	0.0	1	100	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	100	100
<i>Dinas Brân</i>															
<i>Brynhyfryd</i>	1	1	100	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	100	100
<i>Y Rhyl /Rhyl</i>															
<i>Ben Ed Jones Bl. Ed Jones</i>															
<i>Santes Ffraid St Brigids</i>															
<i>Cyfanswm AALL LEA Totals</i>	2	1	50.0	1	50.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	100	100
<i>Cronnol Cumulative</i>	2	1	50.0	2	100	2	100	2	100	2	100	2	100	100	100
<i>Cymru gyfan All Wales</i>	143	24	16.8	57	39.9	93	65.0	122	85.3	138	96.5	143	100	65.0	96.5

Ysgolion Sir Ddinbych Tabl FF CANLYNIADAU SAFON UWCH 2004 – MERCHED ASTUDIAETHAU CREFYDDOL
Denbighshire Schools Table I GCE ADVANCED LEVEL RESULTS 2004: GIRLS – RELIGIOUS STUDIES

<i>Ysgolion Schools</i>	<i>Cyfanswm Totals</i>	<i>A</i>	<i>%</i>	<i>B</i>	<i>%</i>	<i>C</i>	<i>%</i>	<i>D</i>	<i>%</i>	<i>E</i>	<i>%</i>	<i>U</i>	<i>%</i>	<i>% A - C</i>	<i>% A - E</i>
<i>Dinbych Denbigh</i>	2	0	0.0	1	50.0	1	50.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	100	100
<i>Glan Clwyd</i>															
<i>Prestatyn</i>	12	3	25.0	7	58.3	2	16.7	0	0.0	0	0.0	0	0.0	100	100
<i>Dinas Brân</i>	2	0	0.0	0	0.0	1	50.0	1	50.0	0	0.0	0	0.0	50.0	100
<i>Brynhyfryd</i>															
<i>Y Rhyl/Rhyl</i>															
<i>Ben Ed Jones/ Bl. Ed Jones</i>															
<i>Santes Ffraid/ St Brigids</i>	9	0	0.0	2	22.2	2	22.2	3	33.3	2	22.2	0	0.0	44.4	100
<i>Cyfanswm AAll</i>															
<i>LEA Totals</i>	25	3	12.0	10	40.0	6	24.0	4	16.0	2	8.0	0	0.0	76.0	100
<i>Cronnol Cumulative</i>	25	3	12.0	13	52.0	19	76.0	23	92.0	25	100	25	100	76.0	100
<i>Cymru gyfan All Wales</i>	604	100	16.6	266	44.0	422	69.9	546	90.4	593	98.2	604	100	69.9	98.2

Ysgolion Sir Ddinbych – Tabl G CANLYNIADAU TCA 2004 – ASTUDIAETHAU CREFYDDOL
Denbighshire Schools - Table J COEA 2004 - RELIGIOUS STUDIES

Ysgolion Schools	Cyfanswm Totals	% Cydran Cohort	3	%	2	%	1	%	U	%	% Graddau Pasio % Pass Grades 3 - 1	% Graddau Gyd % All Grades
<i>Dinbych/ Denbigh</i>												
<i>Glan Clwyd</i>												
<i>Prestatyn</i>												
<i>Dinas Brân</i>												
<i>Brynhyfryd</i>												
<i>Y Rhyl/ Rhyl</i>	46	23.1	2	43.0	11	23.9	27	58.7	6	13.0	87.0	100
<i>Ben Ed Jones/ Bl. Ed Jones</i>	20	24.4	10	50.0	4	20.0	3	15.0	3	15.0	58.0	100
<i>Santes Ffraid/ St Brigids</i>												
<i>Cyfanswm AAL/ LEA Totals</i>	66		12	18.2	15	22.7	30	45.5	9	13.6	86.4	100
<i>Cronnol/ Cumulative</i>	66		12	18.2	27	40.9	57	86.4	66	100	86.4	100
<i>Cymru gyfan/ All Wales</i>	458		160	34.9	322	70.3	430	93.9	458	100	93.9	100

**Agweddau ar Ddarpariaeth Addysg Grefyddol yng Nghonsortium
Ysgolion Dinas Bran**

Ar gyfer CYSAG – Hydref 2005.

1. Cefndir

Yn dilyn ymweliadau'r Arolygwr/Ymgynghorydd AG â phob ysgol yn ystod tymor yr haf, cytunwyd ar gynnwys yr adroddiadau ynglŷn â'r ymweliad â'r ysgol' y materion a godwyd a'r canlyniadau iddynt. Isod ceir adroddiad ar y Nodweddion Da, Agweddau i'w Datblygu ac Argymhellion ar gyfer pob ysgol ynghyd â chrynodeb cyffredinol ar y consortium cyfan.

2. Rhannau o adroddiadau ar Ymweliadau ag Ysgolion

a) Ysgol Uwchradd Dinas Bran

Nodweddion da

- Mae'r berthynas rhwng disgyblion ac athrawon sy'n gweithio yn yr Adran a rhwng aelodau'r staff a'i gilydd yn dda ac yn bositif.
- Mae geiriau allweddol (dwyieithog) wedi eu harddangos yn effeithlon trwy'r ysgol er bod yr Adran o'r farn y gellid ymestyn y ddarpariaeth hon ymhellach.
- Mae papurau asesu a thasgau'n canolbwyntio ar y tri tharged cyrhaeddiad a restrir yn y Maes Llafur Cytûn.
- Mae'r gwersi wedi eu cynllunio'n dda gyda chyfeiriad pendant iddynt.

Agweddau i'w Datblygu

- Nid yw pob tasg yn arwain at ddealltwriaeth glir a'r gwerthuso gorau
- Sgiliau sylfaenol a dyfnder y gwaith (yn ôl yr Adran, mae'r safonau wedi gostwng oherwydd cwtogi ar yr amser a neilltuwyd i'r pwnc)
- Ysgogi disgyblion mewn rhai grwpiau blwyddyn
- Cynllun Datblygu TGCH ac AG (yn unol â gofynion yr ysgol)
- Darpariaeth ôl 16 ar gyfer AG.

Argymhellion

- Datblygu dulliau i ysgogi disgyblion lle bo hynny'n angenrheidiol
- Sylfaenu strategaethau ar gyfer datblygu TGCH yn unol â'r drafodaeth a gafwyd.
- Datblygu ymhellach y sgiliau sylfaenol a dysgu ffurfio cysyniadau (o bosibl trwy ddefnyddio rhai o'r syniadau a geir ar Ddisg TGCH ac AG gan CYSAG/AALL)
- Adolygu tasgau o fewn y cynllun ac archwilio'r amrywiaeth a gyflwynir ar gyfer pob blwyddyn.
- Dechrau cofnodi asesiadau yn unol â Lefelau'r Maes Llafur Cytûn, ac ystyried gwneud defnydd o Ddeunyddiau Asesu Dewisol ACCAC ar gyfer CA3.

b) Ysgol Maes Hyfryd.

Nodweddion da

- Cysylltiadau â'r gymuned, o safbwynt AG a chydaddoli.
- Ymweliadau rheolaidd yn rhan o waith yn yr ysgol.
- Themâu a strwythurau clir ar gyfer y cynllun gwaith
- Amrywiaeth o weithgareddau'n amlwg o waith y plant.

Agweddau i'w Datblygu

- Mân newidiadau i'r polisi AG
- Hunan werthuso

Argymhellion

- Cynnal yr arfer da cyfredol mewn AG a chydaddoli
- Cynnal y cysylltiadau cyfredol â'r cymunedau ffydd a'u cyfraniad at fywyd a gwaith yr ysgol
- Gweithredu ar yr adolygiadau i'r ddogfen bolisi a'r cynlluniau asesu arfaethedig.

c) Ysgol Llantysilio

Nodweddion da

- Naws yr ysgol
- Ymdrin â'r materion allweddol y tynnwyd sylw atynt yn Adroddiad blaenorol yr Arolygiaeth
- Darparu a chofnodi gweithgareddau ynghlwm wrth gydaddoli
- Y broses o hunan asesu - er bod angen cynnwys mân welliannau.

Gwendidau

- Ansicrwydd ynglŷn â'r sail i'r cynllun gwaith – y Maes Llafur Cytûn neu'r Maes Llafur Eglwysig

Argymhellion

- Parhau'r i gynnal naws bositif yr ysgol
- Parhau â'r ddarpariaeth ar gyfer cydaddoli ynghyd â'r cysylltiadau â'r gymuned ffydd.
- Penderfynu ar sylfaen i'r cynllun gwaith a fydd yn adlewyrchu'n glir gynnwys y Maes Llafur Cytûn
- Datblygu ymhellach a gwella'r broses o hunan asesu - gwaith y dechreuwyd arno eisoes.
- Cynnwys mân welliannau i bolisi AG, yn unol â'r drafodaeth a gafwyd.

d) Ysgol Llandrillo, Corwen

Nodweddion da

- Cynllun gwaith clir
- Y defnydd o arteffactau a chyflwyno agweddau ymarferol mewn AG
- Amrywiaeth y tasgau a gweithgareddau wrth ddysgu ac addysgu
- Dulliau asesu a chofnodi lefelau cyflawniad.

Gwendidau

- Ni cheir cydaddoli ar ddydd Iau, sefyllfa nad yw'n gydnaws â'r gofynion statudol.
- Nodi'r cysylltiadau â'r Maes Llafur Cytûn

Argymhellion

- Cynnal yr arfer da iawn sy'n amlwg i'w gweld yn y gwersi AG a'r cydaddoli
- Nododd yr ysgol dair adran sydd i'w datblygu o fewn y pwnc, agweddau a drafodwyd yn ystod yr ymweliad:
 - sicrhau fod y gwaith ysgrifenedig yn adlewyrchu peth o'r trafod a'r gwaith llafar a wnaethpwyd
 - cysylltu'r storïau Beiblaidd a geir trwy'r cynllun a'r rhai a gyflwynir yn y cydaddoli
 - ymgorffori rhagor o ymweliadau o fewn y cynllun AG
- Sicrhau y gall yr amser cylch ar ddydd Iau arwain at gydaddoli neu neilltuo amser i feddwl yn ystod y dydd(*)
- Dolennu â'r Maes Llafur Cytûn gan adlewyrchu'r cyswllt yn y cynllun gwaith

**Roedd yr ysgol yn cydnabod hyn a derbyniwyd yr argymhelliad.*

dd) Ysgol Glyndyfrdwy

Nodweddion Da

- Clustnodi AG fel pwnc i'w adolygu yn 2005 – angen gwneud cynnydd yn y maes
- Rhyngweithio â'r gymuned ffydd leol
- Awyrgylch gartrefol yr ysgol

Gwendidau

- Cynllun gwaith ar gyfer AG – angen ei ddatblygu a'i gysylltu â'r Maes Llafur Cytûn

- Asesu cyflawniad disgyblion.

Argymhellion

- Gweithredu ar y bwriad angenrheidiol o ddatblygu cynllun gwaith AG gan ei gysylltu â gofynion y Maes Llafur Cytûn
- Cynnwys cynlluniau ar gyfer asesu cyflawniad disgyblion, trwy gyfrwng Deunyddiau Asesu Dewisol ACCAC a Phecyn Canllaw CYSAG/AALL, o bosibl
- Cynnal y cyswllt â'r gymuned ffydd leol.

e) Ysgol Carrog

Nodweddion da

- Y cynllun yn gyffredinol yn cynnwys pynciau addas ar gyfer datblygu AG
- Y patrwm ar gyfer cydaddoli'n creu posibiliadau o safbwynt amrywiaeth a datblygiad
- Ymweliad Blynyddol y Pasg â Choleg y Bala, gyda gwaith ategol yn deillio o'r ymweliad hwn.

Gwendidau

- Cyflwyniad o grefyddau eraill ac eithrio Cristnogaeth, o safbwynt y cynllun gwaith ynghyd â chynnwys gwaith ysgrifenedig y disgyblion
- Cyfle i ddisgyblion ysgrifennu am eu safbwyntiau a'u barn hwy.
- Nid yw rhai tasgau/pwyntiau ffocws ynghlwm wrth rai agweddau'n datblygu'n ddigonol ddealltwriaeth grefyddol a sgiliau perthnasol.

Argymhellion

- Parhau i adolygu a diwygio'r cynllun ac yn arbennig i adolygu'r cyflwyniad o grefyddau ar wahân i Gristnogaeth.
- Ymestyn y cyfle i ddisgyblion gofnodi eu syniadau eu hunain a'u hymateb i wahanol faterion a phynciau.

- Gwerthuso tasgau a phrofiad dysgu i sicrhau fod y dysgu a'r deall sydd ynghlwm wrth AG yn cael ei feithrin trwy gyfrwng dulliau addas.

f) Ysgol Caer Derwyn

Nodweddion da

- Darpariaeth glir ar gyfer cydaddoli, awyrgylch briodol a'r ymdeimlad o gymryd rhan mewn gweithred ar wahân ac arbennig, ynghyd â'r myfyrdod yn effeithiol.
- Cynlluniau ar y gweill i adolygu a gwerthuso'r cynllun gwaith newydd.

Gwendidau

- Cyfanswm y gwaith ac amrediad gweithgareddau yn llyfrau'r disgyblion (*)
- Asesu llwyddiant disgyblion mewn AG (*)

(* Cydnabyddir yr uchod gan yr ysgol; y bwriad yw adolygu'r cynllun gwaith er mwyn eu dileu.)

Argymhellion

- Cynnal y ddarpariaeth dda a'r awyrgylch wrth gydaddoli
- Gweithredu ar y cynllun gwaith diwygiedig a gwerthuso ei effeithlonrwydd.
- Ystyried y defnydd o Ddeunyddiau Asesu Dewisol ACCAC a'r ffurflen gofnodi a gynhwysir yn y Pecyn Canllaw (#)
- Gweithredu mân welliannau i'r polisïau, yn unol â'r drafodaeth â'r Cyd-gysylltydd (#)

(#) Gweithredodd y Cyd-gysylltydd ar yr argymhellion hyn ar fyrder; mae'r ail argymhelliad hefyd wedi ei ymgorffori a chaiff ei fonitro fel yr â'r flwyddyn newydd rhagddi

h) Ysgol Bryn Collen

Nodweddion da

- Y cynllun gwaith wedi ei ddiwygio a'r sylw a dalwyd i AG yn ystod y ddwy neu dair blynedd ddiwethaf.

- Arolwg clir o'r rhaglen AG yn ogystal â strwythur eglur iddi
- Gweithredu ar hunan asesiad yn y pwnc.
- Amrediad y gweithgareddau a'r agweddau ar AG a defnyddiau yn y Ganolfan Iaith.
- Treialu'r cynllun Asesu yn y Ganolfan Iaith.

Gwendidau

- Asesu cyrhaeddiad a chofnodi gwybodaeth.

Argymhellion

- Parhau i gynnal y nodweddion da a restrir
- Parhau â'r gwaith o ddatblygu'r cynllun a gwerthuso ei effeithlonrwydd.
- Ystyried y dull o asesu cyrhaeddiad a chofnodi cynnydd disgyblion (*)
- Datblygu ymhellach y themâu ar gyfer cydaddoli yn y Ganolfan Cyfrwng y Gymraeg (*)

(fel y'u rhestrir gan yr ysgol a'r Ganolfan yn eu hunan asesiad hwy.*

3. Sylwadau Cyffredinol.

Nodweddion da

Mae llawer o agweddau y gellir ymfalchïo ynddynt o safbwynt nodweddion da ar waith ysgolion y consortiwm, ac yn arbennig y canlynol mewn mwy nag un ysgol:

- Cynlluniau gwaith clir ar gyfer AG (3 ysgol)
- Amrediad da o weithgareddau ar gyfer dysgu ac addysgu AG (3 ysgol)
- Darpariaeth ar gyfer, a chofnodi gweithgareddau cydaddoli (3 ysgol)
- Dulliau asesu a chofnodi trefniadau (2 ysgol)

- Cysylltiadau da â'r gymuned ffydd leol o safbwynt AG a chydaddoli (2 ysgol)
- Tystiolaeth dda o hunanasesu a dull effeithiol o'i gyflawni (2 ysgol)
- Naws gartrefol yr ysgol (2 ysgol)

Yn ychwanegol at yr uchod, y sylwadau canlynol ar ysgolion unigol:

- Perthynas dda rhwng y staff a'r disgyblion yn ogystal â rhwng y staff a'i gilydd.
- Arddangos geiriau allweddol yn glir (dwyieithog)
- Gwersi'n glir ac wedi eu cynllunio'n dda
- Ymweliadau rheolaidd wedi eu cynnwys yn y cynllun AG
- Diwygio'r materion allweddol a ddynodir gan yr Arolygiaeth
- Y defnydd o artifactau a chyflwyno agweddau ymarferol at AG
- Clustnodi AG ar gyfer Adolygiad Pwnc
- Ymweliad Blynyddol y Pasg â Choleg y Bala
- Adolygu'r cynllun gwaith a gwblhawyd yn ddiweddar.

Agweddau ar gyfer datblygu

Dau faes yn unig a grybwyllir o safbwynt mwy nag un ysgol:

- Dulliau asesu a chofnodi cyrhaeddiad
- Rhai tasgau nad ydynt yn arwain at ddealltwriaeth o fewn AG ynghyd â gwerthuso (2 ysgol)

Roedd pob sylw arall yn ymwneud ag ysgolion unigol:

- Datblygu sgiliau sylfaenol a dyfnder y gwaith.
- Ysgogi disgyblion mewn rhai grwpiau blynyddol
- Cynllun Datblygu TGCH ac AG
- Darpariaeth ôl 16 mewn AG
- Mân newidiadau i bolisi AG
- Proses hunan asesu i'w sefydlu
- Ansicrwydd ynglŷn â sylfaen y cynllun gwaith
- Dim darpariaeth cydaddoli i ddisgyblion ar gyfer pob dydd
- Ffurio cysylltiadau rhwng y cynllun a'r Maes Llafur Cytûn

- Cynllun gwaith i'w adolygu
- Cyflwyno crefyddau eraill ar wahân i Gristnogaeth o fewn y Cynllun AG
- Cyfle i ddisgyblion fynegi eu safbwyntiau a'u syniadau eu hunain
- Cyfanswm ac amrediad y gwaith yn llyfrau'r disgyblion.

Argymhellion

Fel arfer, roedd cysylltiad rhwng yr argymhellion a'r agweddau hynny a glustnodwyd ar gyfer eu datblygu. Fodd bynnag, amlygwyd y patrwm canlynol:

- Gweithredu ar, neu sefydlu'r adolygiad arfaethedig o'r cynllun gwaith (4 ysgol)
- Dechrau, neu sefydlu dulliau asesu a chofnodi (4 ysgol)
- Adolygu'r polisi AG (3 ysgol)
- Dolennu â'r Maes Llafur Cytûn (2 ysgol)
- Adolygu tasgau o fewn y cynllun ac archwilio'r amrediad o brofiadau a gyflwynir (2 ysgol).

Hefyd, yr oedd yn arwyddocaol fod un agwedd arall wedi ei chrybwyll mewn cysylltiad â mwy nag un ysgol:

- Cynnal arfer da parthed cydaddoli (4 ysgol)
- Cynnal arfer da o safbwynt AG a chydaddoli (2 ysgol)

Roedd pob argymhelliad pellach yn berthnasol i ysgolion unigol:

- Dyfeisio ffyrdd i ysgogi disgyblion
- Sefydlu strategaethau ar gyfer TGCH yn y pwnc
- Gwella sgiliau sylfaenol a ffurfio cysyniadau trwy gyfrwng AG
- Cynnal arfer da mewn AG
- Cynnal naws bositif yr ysgol
- Penderfynu ar sylfaen ar gyfer y cynllun gwaith
- Datblygu a gwella dulliau hunan werthuso
- Cynllunio ar gyfer y gwaith trafod ac sydd i'w ymgorffori yn y gwaith ysgrifenedig
- Nodi'r storïau Beiblaidd a gynhwysir mewn AG a chydaddoli

- Trefnu mwy o ymweliadau o fewn y cynllun AG
- Ymestyn cyfle i ddisgyblion gofnodi/mynegi eu syniadau a'u safbwyntiau eu hunain.
- Datblygu ymhellach y themâu ar gyfer cydaddoli.

Safonau

Nid oedd yn bosibl mynegi barn ar safonau pob ysgol. Fodd bynnag, yn yr achosion hyn, roedd yr ysgol yn hyderus y byddai'r adolygu arfaethedig yn hybu gwelliant mewn safonau ac yn galluogi disgyblion i ymgynhyrdd yn llwyddiannus ar y safonau uchaf posibl.

Yn y gweddill o'r ysgolion, amlygwyd y patrwm canlynol:

- Da iawn neu Dda i Dda lawn (2 ysgol)
- Da neu'n symud tuag at Dda (2 ysgol)
- Boddhaol ac yn gwella/symud tuag at Dda (3 ysgol).

(Nid oedd yn bosibl tynnu casgliadau parthed un ysgol yn unig).

SYLWADAU CYD-DESTUNOL: ADRODDIADAU ARCHWILIO
CYSAG SIR DDINBYCH
11/10/2005

Ysgol	Dyddiadau	Arolygydd	Arolygydd YMCD	Arolygydd AG
Ysgol Cyffylliog	25 – 27 Ionawr 2005	Mr D M Cray	Cwestiwn Allweddol 3 Mrs SA Taylor Mr W Owen	Heb ei Archwilio
<p><i>Mae Cyffylliog yn ysgol wledig fechan, bedair milltir i'r gorllewin o dref Rhuthun. Mae'n gwasanaethu'r pentref a'r wlad o gwmpas. Ni ystyrir bod y disgyblion yn dod o gefndir breintiedig na difreintiedig. Ar hyn o bryd mae 29 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr. Dros amser, bu gostyngiad mawr yn nifer y disgyblion. Mae gan 8% hawl i dderbyn prydau bwyd ysgol am ddim, ffigwr llawer is na'r cyfartaledd Sirol (15.5%) a Chenedlaethol (19%). Dynodwyd 10 disgybl (34%) fel rhai ag AAA. Daw 25% o'r disgyblion o gartref lle siaredir Cymraeg fel iaith gyntaf. Ystyrir bod tua hanner y disgyblion yn siarad Cymraeg i safon sy'n cyfateb i safon iaith gyntaf. Defnyddir Cymraeg a Saesneg fel cyfrwng dysgu ac addysgu.</i></p>				
Ysgol Twm o'r Nant	7-9 Chwefror 2005	Phillip Edwards	Cwestiwn Allweddol 3 Mrs M Meredith-Jones Mr W Owen	Mrs M Meredith-Jones
<p><i>Mae gan Ysgol Twm o'r Nant 267 disgybl 3 - 11 oed, ac yn ysgol Gymraeg ei chyfrwng. Mae disgyblion yn mynychu o dref Dinbych a'r ardal o amgylch. Daw 41% o ddisgyblion o gartrefi lle siaredir Cymraeg fel prif iaith, ac mae 87% yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf neu i safon gyfatebol. Daw mwyafrif y disgyblion o ardaloedd cymharol freintiedig; mae gan ryw 2% hawl i brydau am ddim, sy'n llawer is na'r ffigwr cenedlaethol o 19%. Mae gan 11% AAA gan gynnwys 5 gyda datganiad o anghenion addysgol sy'n mynychu uned AAA yr ysgol. Mae'r ysgol wedi cyflawni statws Buddsoddwyr Mewn Pobl.</i></p>				
Ysgol Melyd	7 – 9 Chwefror 2005	Merfyn Douglas Jones	Cwestiwn Allweddol 3 Mr Kerry Knapper	Mr Kerry Knapper
<p><i>Lleolir Ysgol Melyd ym mhentref Gallt Melyd, ger Prestatyn. Ar hyn o bryd mae 114 disgybl 4-11 oed ac 11 plentyn meithrin rhan amser ar y gofrestr. Daw bron i bob plentyn o gartrefi lle mae'r Saesneg yn brif iaith. Nid oes unrhyw ddisgybl yn dod o gartref lle siaredir Cymraeg. Daw'r mwyafrif o gartrefi a ddisgrifir gan yr ysgol fel rhai pennaf difreintiedig yn economaidd. Mae 4 disgybl yn rhai 'a ofelir' amdanynt gan yr Awdurdod Lleol. Mae gan ryw 35% ohonynt hawl i brydau bwyd am ddim. Mae gan 33% AAA. Mae gan 13 ddatganiad o anghenion addysgol, mae 17 ar 'school action' a 24 ar 'school action plus'. Mae gan yr ysgol uned iaith arbennig ar gyfer disgyblion gydag anawsterau ieithyddol penodol, sy'n eu dysgu bob bore. Mae'n yn ymuno â'r disgyblion eraill yn y prynhawn.</i></p>				
Ysgol Rhewl	9 – 11 Mai 2005	Mr R Jones	Cwestiwn Allweddol 3 Mr R Jones Mr G Morris Mrs A Evans	Mrs A Evans
<p><i>Lleolir Ysgol Gynradd Rhewl ym mhentref Rhewl yn Nyffryn Clwyd, rhyw ddwy filltir o dref Rhuthun. Mae'r ysgol yn un Ddwyieithog Categori C ac yn gwasanaethu'r gymuned leol. Mae rhyw 6% o'r plant â hawl i brydau bwyd am ddim, sy'n is na'r cyfartaledd ar</i></p>				

gyfer yr AALI a'r cyfartaledd cenedlaethol o 19%. Mae'r ysgol yn dysgu plant rhwng 3 ac 11 oed. Mae 42 ar y gofrestr, gan gynnwys naw a ddysgir yn y dosbarth meithrin yn y bore'n unig. Mae gan 3 AAA gan gynnwys 1 gyda datganiad. Mae 7 yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf. Ar hyn o bryd mae dau athro yn yr ysgol, gan gynnwys y pennaeth.

Ysgol Pen Barras	16 – 18 Mai 2005	Mr B Jones	Cwestiwn Allweddol 3 Mr Dafydd Treharne Mr Gwilym Davies	Heb ei archwilio
-------------------------	-------------------------	-------------------	---	-------------------------

Mae Ysgol Pen Barras yn Ysgol Gymraeg ei chyfrwng ar gyfer plant rhwng 3 ac 11 oed. Daw'r plant o dref marchnad Rhuthun a'r ardal o gwmpas. Mae'r ardal yn eithaf ffyniannus ac ar y cyfan daw'r plant o gefndiroedd cymharol freintiedig yn gymdeithasol. Ar hyn o bryd mae 204 ar y gofrestr yn llawn-amser a 29 o blant meithrin rhan amser. Mae 30 ar y gofrestr AAA ac mae gan 1 ddatganiad AAA. Mae gan 2% hawl i brydau am ddim. Daw 60% o gartrefi lle siaredir Cymraeg yn rhugl. Daw llai nag 1% o gefndir lleiafrif ethnig. Pan dderbynnir plant i'r ysgol, maent yn cael eu meithrin yn ieithyddol yn ofalus mewn perthynas â'r sefyllfa Gymraeg. Cymraeg yw iaith swyddogol yr ysgol. Mae'r ysgol yn rhannu safle gydag Ysgol Stryd y Rhos.

Dadansoddiad o Adroddiadau Archwilio
CYSAG Sir Ddinbych
11 Hydref 2005

5 Ysgol

Enw'r ysgol	Dyddiad archwilio	Arolygydd	Arolygydd YMCD	Arolygydd AG
Ysgol Cyffylliog	25 – 27 Ionawr '05	Mr D Cray	Cwestiwn Allweddol 3 Mrs SA Taylor Mr W Owen	Heb ei archwilio
Ysgol Twm o'r Nant	7 – 9 Chwefror	Mr Phillip Edwards	Cwestiwn Allweddol 3 Mrs M Meredith Jones Mr W Owen	Mrs M Meredith Jones
Ysgol Melyd	7 – 9 Chwefror	Mr Merfyn Douglas Jones	Cwestiwn Allweddol 3 Mr Kerry Knapper Mrs Sue Sperring	Mr Kerry Knapper
Ysgol Rhewl	9 – 11 Mai'05	Mr R Jones	Cwestiwn Allweddol 3 Mr R Jones Mr G Morris Mrs A Evans	Mrs A Evans
Ysgol Pen Barras	16 – 18 Mai'05	Mr B Jones	Cwestiwn Allweddol 3 Mr Dafydd Treharne Mr Gwilym Davies	Heb ei archwilio

DATBLYGIAD YSBRYDOL, MOESOL, CYMDEITHASOL A DIWYLLIANNOL

Materion allweddol

2 ysgol

- *Datblygu ymhellach ymwybyddiaeth a gwybodaeth disgyblion o'r Cwricwlwm Cymreig. (Ysgol Melyd)*
- *Sicrhau bod dwyieithrwydd yn cael ei hyrwyddo'n effeithiol trwy'r ysgol a bod anghenion ieithyddol holl ddisgyblion yn cael eu diwallu'n effeithiol. (Ysgol Rhewl)*

Gweithgareddau Allgyrsiol / Cyfleoedd

5 Ysgol

- Hyrwyddir datblygiad disgyblion trwy eu cyfranogiad mewn ystod o weithgareddau allgyrsiol megis clybiau chwaraeon a garddio. Maent yn cystadlu'n rheolaidd yng ngweithgareddau'r urdd. Defnyddir yr amgylchfyd lleol i hybu profiadau cwricwlaidd y disgyblion, megis ymweliadau â Llysfasi, Erddig, Bontuchel ac amgueddfeydd lleol. *(Ysgol Cyffylliog)*

- Mae ystod profiadau allgyrsiol, diwylliannol a chwaraeon a gynigir gan yr ysgol yn nodwedd hynod. Mae addysg y disgyblion yn cael ei ehangu gan nifer o ymweliadau â mannau sy'n berthnasol i'w gwaith a chan bobl ddiddorol sy'n dod i'r ysgol. (*Ysgol Twm o'r Nant*)
- Mae ystod profiadau allgyrsiol, diwylliannol a chwaraeon a gynigir gan yr ysgol yn nodwedd hynod. Mae'r rhain yn cynnwys chwaraeon, technoleg gwybodaeth, celfyddyd a gwaith cartref, cerdd dant, dawnsio gwerin Cymreig a chlybiau adrodd, yr Urdd, elusennau, eisteddfodau, cystadlaethau ac ymweliadau trwy Gymru gyfan a thu hwnt. Mae'r cysylltiadau gwerthfawr hyn yn cyfoethogi eu profiadau addysgol a'u datblygiad personol. (*Ysgol Twm o'r Nant*)
- Mae ystod eang gweithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys clybiau a chwaraeon, yn cyfrannu'n gryf tuag at ddatblygiad personol, cymdeithasol ac addysgol disgyblion. Anogir pawb i chwarae rhan ac mae'r rhai sydd yn ymuno yn canfod bod y profiadau'n bleserus. (*Ysgol Melyd*)
- Mae gan ddisgyblion CA2 fynediad i ystod eang o weithgareddau allgyrsiol gan gynnwys clwb mathemateg, chwaraeon, eisteddfodau'r Urdd ac ymweliadau â Glan-llyn, sy'n ychwanegu dimensiwn gwerthfawr i brofiadau addysgol disgyblion (*Ysgol Rhewl*)
- Mae'r ddarpariaeth y tu allan i oriau ysgol o safon dda iawn. Mae clybiau chwaraeon sy'n agored i fechgyn a merched ac mae'r ysgol yn llwyddiannus iawn yng nghystadlaethau gemau ysgolion y gogledd-ddwyrain. Mae nifer arwyddocaol iawn yn cystadlu mewn ystod eang o gystadlaethau'r Urdd. Mae safonau'r disgyblion mewn cau, siarad yn gyhoeddus, perfformio cân actol a dawnsio yn dda iawn, ac mae'r canu gan y côr a'r ysgol gyfan yn ystod cyd-addoliad o safon uchel iawn. (*Ysgol Pen Barras*)
- Trefnir nifer o ymweliadau pwrpasol i bob dosbarth gyda nifer o leoedd, pell ac agos, yn enwedig mannau sy'n gysylltiedig gyda'u hastudiaethau hanesyddol, daearyddol a chrefyddol. Chwaraeir rôl bwysig gan nifer o ymwelwyr gan gynnwys clerigwyr, artistiaid, beirdd ac awduron cyfoes. Mae'r profiadau yn y cyd-destun hwn yn nodweddiad hynod. (*Ysgol Pen Barras*)

Cysylltiadau gyda/Chwarae rhan yn y Gymuned leol

5 ysgol

- Mae cysylltiadau da gyda'r gymuned, yr ysgol uwchradd leol, a'r ysgolion cynradd hynny gyda'r rhain y mae'n cydweithredu ar faterion cwricwlaidd. (*Ysgol Cyffylliog*)
- Mae gan yr ysgol gysylltiadau da gyda'r gymuned leol, er enghraifft gyda'r heddwes lleol. Mae cysylltiad positif gydag ysgolion tebyg eraill a pholisi trosglwyddo cadarn gyda'r ysgol uwchradd. (*Ysgol Twm o'r Nant*)
- Mae ymweliadau addysgol yn gwella ansawdd gwersi. Mae cysylltiadau gyda Chwmni Opera Cymru, ymwelwyr â'r ysgol, artistiaid, awduron a cherddorion preswyl, oll yn darparu cysylltiadau positif gyda'r gymuned ac yn cyfrannu i gyfoeth mawr ym mhrofiadau dysgu'r plant. (*Ysgol Melyd*)
- Mae ansawdd partneriaeth gyda rhieni, y gymuned leol ac ysgolion eraill a cholegau'n dda iawn. (*Ysgol Melyd*)

- Mae gan yr ysgol gysylltiadau partneriaeth da gyda dwy brifysgol a chydag ysgolion lleol, gyda'r rhain y rhennir digwyddiadau celfyddyd a chwaraeon yn aml. (*Ysgol Melyd*)
- Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda thair ysgol arall sy'n bwydo'r ysgol uwchradd. Mae cysylltiadau hefyd gydag ysgolion cynradd eraill trwy gyfrwng yr Urdd a chwaraeon. Gwneir trefniadau trosglwyddo gyda'r ysgol uwchradd gan gynnwys ymweliadau gan ddisgyblion B17. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion ar brofiad gwaith o'r ysgol uwchradd a chroesewir myfyrwyr o'r coleg lleol. (*Ysgol Rhewl*)
- Mae'r ysgol yn darparu ystod dda o brofiadau i ddisgyblion er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u cymuned ac o berthyn i'r gymuned honno. (*Ysgol Rhewl*)
- Mae'r ysgol wedi derbyn nawdd gan gwmnïau lleol. Mae aelodau o'r gymuned wedi bod yn yr ysgol i drafod eu gwaith gyda disgyblion. (*Ysgol Rhewl*)
- Mae gan yr ysgol bartneriaeth dda iawn gyda rhieni. (*Ysgol Rhewl*)
- Mae cyfraniadau gwerthfawr gan glerigwyr yn yr ardal trwy gyfrwng ymweliadau â'r ysgol, a'r disgyblion yn ymweld â mannau addoliad. (*Ysgol Pen Barras*)
- Mae partneriaeth effeithiol rhwng yr ysgol ac ysgolion eraill a chysylltiadau cryfion gyda'r ysgol uwchradd. Mae trefniadau trosglwyddo'n drylwyr ac fe gynhelir nifer o gyfarfodydd pontio cynradd-uwchradd. I helpu trosglwyddiad, mae gwaith sy'n cael ei gychwyn gan ddisgyblion ym M16 a'i gwblhau ym mlwyddyn gyntaf addysg uwchradd. Mae'r berthynas gyda rhieni yn dda iawn ac maent yn gefnogol iawn ac yn cyfrannu'n dda i fywyd yr ysgol (*Ysgol Pen Barras*)
- Mae cysylltiadau da iawn gyda'r gymuned. Seilir elfennau o'r cwricwlwm ar astudiaeth o'r ardal leol ac mae disgyblion yn cyfrannu i fywyd diwylliannol eu cymuned. Maent yn chwarae rhan mewn cyngherddau cymunedol a gwasanaethau crefyddol yn y mannau addoli lleol. Maent yn cystadlu yn yr eisteddfod ac yn perfformio yng ngŵyl Rhuthun. (*Ysgol Pen Barras*)

Darpariaeth ar gyfer datblygu gwaith YMCD

4 ysgol

- Ar y cyfan mae datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn cael ei hybu'n effeithiol. (*Ysgol Cyffylliog*)
- Mae'r ysgol yn gwneud darpariaeth dda ar ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol (*Ysgol Twm o'r Nant*)
- Mae darpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol disgyblion yn dda, tra bo'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad diwylliannol yn foddhaol. (*Ysgol Melyd*)
- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn dda. (*Ysgol Rhewl*)

Cwricwlwm Cymreig / Y Dimensiwn Cymreig

4 ysgol

- Mae darpariaeth gadarn ar gyfer hybu a datblygu sgiliau dwyieithog y disgyblion a rhoddir pwyslais priodol ar y dimensiwn Cymreig yn y cwricwlwm. (*Ysgol Cyffylliog*)
- Mae safon y Cwricwlwm Cymreig yn dda iawn. (*Ysgol Twm o'r Nant*)

- Mae gwerthfawrogiad a gwybodaeth disgyblion o ddiwylliant y gorffennol a'r presennol yng Nghymru yn gryf. (*Ysgol Twm o'r Nant*)
- Mae gallu dwyieithog disgyblion yn ganolog. Mae disgyblion sy'n siarad Cymraeg yn medru symud o un iaith i'r llall ac yn cyflawni safon resymol o ddwyieithrwydd. (*Ysgol Rhewl*)
- Mae safonau cyflawni disgyblion mewn dwyieithrwydd yn nodwedd hynod. (*Ysgol Pen Barras*)

Polisi ar Hiliaeth / Hybu Cytgord Hiliol

4 ysgol

- Mae disgyblion yn ymwybodol o'r angen i ddangos parch i eraill, beth bynnag yw eu cefndir hiliol (*Ysgol Cyffylliog*)
- Mae gan yr ysgol bolisiau perthnasol ar gyfer cyfle cyfartal, gwrth-hiliaeth, cynhwysiant cymdeithasol ac amrywiaeth. (*Ysgol Twm o'r Nant*)
- Mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth glir o'r angen i drin pawb yn gyfartal, gan gynnwys rhai o leiafrifoedd ethnig a rhai anabl. (*Ysgol Melyd*)
- Mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth dda o gyfle cyfartal ac maent yn parhau amrywiaeth. (*Ysgol Pen Barras*)

Dinasyddiaeth Fyd-eang / Addysg y Byd/Cysylltiadau Rhyngwladol 4 ysgol

- Mae eu hymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth y byd a datblygiad cynaliadwy yn cael ei hybu'n effeithiol trwy eu gwaith yn y cwricwlwm. (*Ysgol Cyffylliog*)
